


Cyllid preifat – yr effaith gyhoeddus

Archwilio'r broses o wneud
penderfyniadau ar gyfer Canolfan
Ganser newydd Felindre

Chwefror 2026



Rydym wedi paratoi'r adroddiad hwn a'i gyflwyno i'r Senedd o dan adran 145A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2026

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os ydych yn ei ailddefnyddio, rhaid i'ch ailddefnydd fod yn gywir ac ni ddylai fod mewn cyd-destun sy'n gamarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru ac mae'n rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle'r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Os oes angen cymorth arnoch gyda'r ddogfen hon

Os hoffech ragor o wybodaeth, neu os oes angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau arnoch mewn fformat neu iaith arall:

- ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- e-bostiwch ni: post@archwilio.cymru

Cewch ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – byddwn yn ymateb yn yr iaith yr ydych yn ei defnyddio.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Goruchaf Sefydliadau Archwilio (INTOSAI).

Cynnwys

Ciplun archwilio	4
Barn yr Archwilydd Cyffredinol	7
Ffeithiau a ffigyrau allweddol	8
Ein canfyddiadau	10
Argymhellion	42

Atodiadau

1 Ynglŷn â'n gwaith	45
2 Ynglŷn â chontract Canolfan Ganser newydd Felindre	50
3 Amcangyfrifon cost ar gyfer Canolfan Ganser newydd Felindre ar wahanol adegau	59
4 Partïon sector cyhoeddus sy'n ymddangos yn yr adroddiad hwn a thermau allweddol eraill	61



Ciplun archwilio

Yr hyn yr oeddem yn edrych arno

- Ym mis Mawrth 2024, ar ôl cael cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru, cytunodd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre (yr Ymddiriedolaeth) ar contract hirdymor gyda chonsortium preifat, ACORN, i gyflawni'r gwaith o ddylunio, adeiladu, cyllido, a chynnal a chadw Canolfan Ganser Felindre newydd yn yr Eglwys Newydd, Caerdydd. Gwnaethom archwilio a all yr Ymddiriedolaeth a Llywodraeth Cymru ddangos sail gadarn dros y penderfyniadau allweddol a wnaed ar Ganolfan Ganser newydd Felindre hyd yn hyn.
- Gwnaethom ganolbwyntio ar ddatblygiadau o amgylch ac ers cymeradwyo Achos Busnes Amlinellol ym mis Mawrth 2021, gan gynnwys y broses gaffael, cymeradwyo'r Achos Busnes Llawn, a'r contract y cytunwyd arno. Nid ydym wedi archwilio'r cynnydd gyda'r gwaith adeiladu (er ein bod yn trafod y materion cysylltiedig), y model o ddarparu gofal, na'r dewis lleoliad ar gyfer Canolfan Ganser newydd Felindre.

Pam mae hyn yn bwysig

- Ni ystyrir bod canolfan ganser bresennol yr Ymddiriedolaeth yng Nghaerdydd, sy'n gwasanaethu oddeutu 1.7 miliwn o bobl, yn addas i'r diben mwyach. Mae gwella gwasanaethau canser yn flaenoriaeth allweddol i GIG Cymru ac mae Canolfan Ganser newydd Felindre yn cefnogi amcanion gofal iechyd cenedlaethol a rhanbarthol. Mae'n rhan ganolog o raglen ehangach Trawsnewid Gwasanaethau Canser yr Ymddiriedolaeth ar gyfer de-ddwyrain Cymru.
- Bydd Canolfan Ganser newydd Felindre yn cael ei chyllido, yn rhannol, gan Fodel Buddsoddi Cydfuddiannol Llywodraeth Cymru. Trwy'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol, bydd ACORN yn adeiladu ac yn cynnal a chadw Canolfan Ganser newydd Felindre yn gyfnewid am Daliad Gwasanaeth Blyneddol sy'n daladwy am 25 mlynedd.
- Hyd yn hyn, Canolfan Ganser newydd Felindre yw'r unig brosiect GIG i ddefnyddio'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol. Mae'r prosiect eisoes wedi denu llawer o ddiddordeb cyhoeddus, gan gynnwys ynghylch ei leoliad, y model o ofal canser, y defnydd o'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol, a phenodi ACORN. Mae'r costau hirdymor sylweddol yn gwneud sicrhau bod sylfaen gadarn dros benderfyniadau hyd yn oed yn bwysicach.

Yr hyn a ganfuwyd gennym

- 6 Mae amcangyfrifon cost wedi datblygu dros amser, ond cynyddodd oediadau dros y camau olaf o ddatblygiad prosiect Canolfan Ganser newydd Felindre ei amlygiad i chwyddiant prisiau. Y gost mwyaf sylweddol yw'r contract Model Buddsoddi Cydfuddiannol gydag ACORN (contract Canolfan Ganser newydd Felindre) y rhagwelir y bydd yn £885 miliwn dros 25 mlynedd. O fewn hyn, mae'r gost adeiladu ar gontract o £321 miliwn yn ymddangos yn rhesymol o ystyried meincnodi a chyngor arall yr Ymddiriedolaeth.
- 7 Yn ogystal â chontract Canolfan Ganser newydd Felindre, mae costau eraill wrth roi Canolfan Ganser newydd Felindre ar waith a'i rheoli. Disgwylir i'r costau hyn fod yn £765 miliwn o leiaf dros 25 mlynedd.
- 8 Fodd bynnag, rydym yn amcangyfrif y byddai parhau i reoli a chynnal a chadw'r ganolfan bresennol fel arall wedi costio o leiaf £600 miliwn dros 25 mlynedd. Byddai hyn hefyd wedi bod heb unrhyw fuddion ychwanegol y mae Canolfan Ganser newydd Felindre yn eu cynnig.
- 9 Yn gyffredinol, mae'r trefniadau llywodraethu sy'n cefnogi penderfyniadau allweddol yn rhoi sicrwydd eu bod wedi eu gwneud yn briodol. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi dilyn prosesau rheoli achosion busnes a phrosiectau sefydledig yn ddigon boddhaol, a bu gwaith craffu priodol, cyfraniad arbenigol, a chyfraniad gan randdeiliaid. Dilynodd y broses gaffael y rheoliadau a oedd ar waith ar y pryd, a lywiwyd gan gyngor cyfreithiol helaeth.
- 10 Er ein bod wedi nodi meysydd i'w gwella yn y rhannau o'r broses a archwiliwyd gennym, nid ydym yn ystyried eu bod yn tanseilio uniondeb cyffredinol y penderfyniadau terfynol i fynd rhagddo â chontract Canolfan Ganser newydd Felindre. Er enghraifft:
 - Oherwydd bod Llywodraeth Cymru wedi dewis y dull Model Buddsoddi Cydfuddiannol yn gynnar, ni chafodd ffyrdd eraill o gyllido'r prosiect eu harchwilio yn llawn yn ystod y camau diweddarach. Mae agweddau ar y dull a ddefnyddiwyd i gyfiawnhau bod y Model Buddsoddi Cydfuddiannol yn cynnig gwerth am arian yn yr achos hwn hefyd yn agored i gael eu herio.
 - Yn fwy cyffredinol, credwn y gallai dogfennau allweddol fod wedi darparu mwy o sicrwydd ar gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Fodd bynnag, rydym yn fodlon bod hyn wedi bod yn ystyriaeth berthnasol drwy gydol y broses.
- 11 Bydd p'un a yw gwariant ar Ganolfan Ganser newydd Felindre yn cyflawni gwerth am arian yn dibynnu ar a yw'n cyflawni'r buddion disgwyliedig dros amser ac mewn amgylchedd sy'n newid ar gyfer gwasanaethau canser. Bydd hefyd yn dibynnu ar a yw darpariaethau yng nghontract Canolfan Ganser newydd Felindre i ddiogelu'r pwrs cyhoeddus yn sefyll yn gryf.

Yr hyn a argymhellir gennym

- 12 Mae ein gwaith wedi edrych yn ôl ar benderfyniadau a wnaed a'r prosesau a'u dilynodd. Fodd bynnag, rydym wedi gwneud pedwar argymhelliad blaengar. Maent yn cynnwys argymhellion ar gyfer:
- Llywodraeth Cymru – ynghylch gwella canllawiau achosion busnes, a gweithio gyda chyrff cyhoeddus eraill i ddysgu a rhannu gwersi o brosiect Canolfan Ganser newydd Felindre; ac
 - yr Ymddiriedolaeth – ynghylch sut mae'n sicrhau ei hun o werth am arian pe byddai newidiadau o dan gontract Canolfan Ganser newydd Felindre ac yn dangos sut y mae canlyniadau prosiect Canolfan Ganser newydd Felindre yn cefnogi ei hamcanion strategol ehangach.



Barn yr Archwilydd Cyffredinol



Y cyrff dan sylw sydd wedi bod yn gyfrifol am y penderfyniadau sydd wedi cael eu gwneud am brosiect y ganolfan newydd, gan ystyried y costau cyffredinol a'r risgiau cynhenid sy'n ymwneud â chontractau cyllid preifat hirdymor. Er fy mod yn cydnabod bod yna rai sy'n parhau i wrthwynebu'r prosiect, mae'r prosesau a ddilynwyd gan yr Ymddiriedolaeth a Llywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod a archwiliwyd gennym wedi darparu sylfaen digon cadarn, ar y cyfan, ar gyfer y penderfyniadau hynny.

Fodd bynnag, nid yw ein canfyddiadau yn golygu na fydd yna broblemau wrth fynd ati i adeiladu a gweithredu'r ganolfan newydd. A bydd rhaid aros rhai blynyddoedd cyn y gellir gwneud asesiad ehangach o werth am arian.

Adrian Crompton

Archwilydd Cyffredinol Cymru





Ffeithiau a ffigurau allweddol

Amseru



15 mlynedd – yr amser ers i'r Ymddiriedolaeth gyflwyno cynnig ffurfiol i Lywodraeth Cymru am y tro cyntaf i ddisodli canolfan ganser bresennol Felindre.



Mawrth 2021 – cymeradwyodd Llywodraeth Cymru Achosion Busnes Amlinellol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer Canolfan Ganser newydd Felindre a'r gwaith galluogi.



Mawrth 2024 – cwblhaodd yr Ymddiriedolaeth yr agweddau ariannol ar gontract Canolfan Ganser newydd Felindre gydag ACORN.



Ebrill 2027 – y dyddiad pryd y disgwylir trin y cleifion cyntaf a dechrau cam gweithrediadau 25 mlynedd contract Canolfan Ganser newydd Felindre.



Mawrth 2052 – diwedd contract Canolfan Ganser newydd Felindre gydag ACORN.

Costau a buddion



£885 miliwn – y gost dylunio, adeiladu, cyllido, a chynnal a chadw a ragwelir o dan gontract Canolfan Ganser newydd Felindre gydag ACORN. Dyma swm y Taliadau Gwasanaeth Blynnyddol disgwylidig sy'n ddyledus dros 25 mlynedd.



O leiaf £765 miliwn – y costau craidd amcangyfrifedig y tu allan i gontract Canolfan Ganser newydd Felindre i roi Canolfan Ganser newydd Felindre ar waith a'i rheoli dros gyfnod o 25 mlynedd ar ôl ei hadeiladu.



£321 miliwn – gwerth ar gontract, wrth gwblhau'r agweddau ariannol ym mis Mawrth 2024, y costau o adeiladu a datblygu Canolfan Ganser newydd Felindre i'w had-dalu yn rhan o Daliadau Gwasanaeth Blynnyddol.



3.2 Y Gymhareb Rhwng Cost a Buddion – am bob £1 sy'n cael ei gwario ar brosiectau Canolfan Ganser newydd Felindre a rhyngddibynnol y tu hwnt i'r dewis busnes fel arfer, mae'r Ymddiriedolaeth yn amcangyfrif y bydd yn cynhyrchu £3.20 o fuddion ychwanegol.



11 o ddangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer budd cymunedol – cytunwyd arnynt yng nghontract Canolfan Ganser newydd Felindre gydag ACORN, gan gynnwys ynghylch creu swyddi, prentisiaethau, ac allgymorth arall.

Ein canfyddiadau

13 Rydym wedi strwythuro ein canfyddiadau yn bedair adran:

- Costau ac amserlenni – rhywfaint o hanes prosiect Canolfan Ganser newydd Felindre ers 2010 a sut y mae ei gostau wedi datblygu a sut maent ar hyn o bryd.¹
- Y defnydd o'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol – y sail ar gyfer defnyddio'r math hwn o gyllid ar gyfer Canolfan Ganser newydd Felindre a materion cysylltiedig.
- Caffael y contract – y broses gaffael ar gyfer Canolfan Ganser newydd Felindre a sut yr ymatebodd yr Ymddiriedolaeth i bryderon yn ymwneud â phenodiad ACORN.
- Proses yr achos busnes a rheoli'r prosiect – y dull a ddilynwyd i ddatblygu a rheoli prosiect Canolfan Ganser newydd Felindre.

¹ Trwy gydol yr adroddiad hwn, rydym wedi addasu amcangyfrifon cost hanesyddol ar gyfer chwyddiant gan ddefnyddio datchwyddydd cynnyrch domestig gros Trysorlys EF i gymhwyso sylfaen prisiau cyffredin. Mae **Atodiad 1** yn nodi rhagor o fanylion am y dull hwn. Mae **Arddangosyn 8** yn **Atodiad 3** yn nodi sut y mae amcangyfrifon o gost Canolfan Ganser newydd Felindre wedi amrywio ers mis Hydref 2010, gan gynnwys mewn cysylltiad â'r hyn a gynhwyswyd yn yr amcangyfrifon hynny. Mae'n adlewyrchu ffigurau sydd wedi eu haddasu a ffigurau nad ydynt wedi eu haddasu ac yn cynnwys rhai manylion ychwanegol.

Costau ac amserlenni

Cymerodd prosiect Canolfan Ganser newydd Felindre dros ddegawd i'w gwblhau pan benododd yr Ymddiriedolaeth ACORN yn 2022, ac roedd yr amcangyfrifon cost yn newid wrth i'r cynlluniau ddatblygu

- 14 Mae Canolfan Ganser bresennol Felindre yn gartref i wasanaethau clinigol yr Ymddiriedolaeth. Fe'i hadeiladwyd ym 1956, ac mae wedi ei gwella a'i hestyn ers hynny. Fodd bynnag, nid ystyrir ei bod yn addas i'r diben mwyach am y rhesymau a ganlyn:
- nid oes ganddi'r cyfleusterau na'r lle i fodloni symiau galw na thriniaethau yn y dyfodol;
 - mae llawer o'r eiddo nad yw'n cydymffurfio â gofynion statudol;
 - mae amgylchedd y cleifion yn eilradd ac yn aneffeithlon;² ac
 - mae costau cynnal a chadw yn cynyddu ac yn anghynnaladwy.
- 15 Ym mis Hydref 2010, cyflwynodd yr Ymddiriedolaeth y cynnig gwreiddiol i Lywodraeth Cymru i ddisodli'r ganolfan ar gost adeiladu cyfalaf amcangyfrifedig o £327.4 miliwn. Ni chymeradwyodd Llywodraeth Cymru'r cynigion hyn, dywedwyd wrthym oherwydd nad oedd digon o gyllid cyfalaf ar gael. Rydym yn deall nad oedd yr amcangyfrif hwn yn cynnwys gwaith galluogi ar y raddfa a gynhwyswyd yn ddiweddarach.
- 16 Yn dilyn trafodaethau, ym mis Rhagfyr 2014, cymeradwyodd Llywodraeth Cymru gynigion cychwynnol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser. Roedd hyn yn cynnwys cost adeiladu cyfalaf amcangyfrifedig ar gyfer Canolfan Ganser newydd Felindre a gwaith galluogi o £276.0 miliwn. Mae'r achos busnes hwn yn nodi rhestr hir o ddewisiadau ar gyfer cyllido'r ganolfan newydd, gan gynnwys cyllid preifat, er na wnaeth eu gwerthuso'n llawn.
- 17 Dilynodd cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu drwy 2015, 2016 a 2017. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2017 y byddai Canolfan Ganser newydd Felindre yn cael ei chyllido gan ddefnyddio'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol (gweler hefyd **baragraffau 52 i 56**). Yna cymeradwyodd yr Ymddiriedolaeth ei Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser presennol ym mis Medi 2017.

2 Mae nifer o'r manau a ddefnyddir gan gleifion, ymwelwyr a staff yn croesi oherwydd bod gwasanaethau wedi eu lleoli'n amhriodol. Mae hyn yn arwain at lif gwasanaeth gwael ac aneffeithlonrwydd gweithlu. Mae materion hefyd ynghylch cynnal diogelwch a chyfrinachedd cleifion yn briodol.

- 18 Ym mis Mawrth 2021, cymeradwyodd Llywodraeth Cymru Achos Busnes Amlinellol ar wahân ar gyfer Canolfan Ganser newydd Felindre a'r gwaith galluogi, a oedd rhyngddynt:
- yn cadarnhau y byddai Canolfan Ganser newydd Felindre yn dal i gael ei chyllido drwy'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol ac yn rhoi cost adeiladu cyfalaf amcangyfrifedig o £204.0 miliwn yn dilyn newidiadau i'r dyluniad a'r ôl troed tybiedig ers 2014, ac yn cyfrannu at Daliad Gwasanaeth Blynnyddol dangosol o £19.2 miliwn;³
 - yn cytuno ar y gofynion cyfalaf ar gyfer y gwaith galluogi, i'w gaffael cyn cymeradwyaeth Achos Busnes Llawn Canolfan Ganser newydd Felindre, ac yn caniatáu cost o £30.4 miliwn na fyddai modd ei hadennill pe na fyddai prosiect Canolfan Ganser newydd Felindre yn mynd rhagddo;
 - yn nodi'r rhesymeg dros Ganolfan Ganser newydd Felindre, gan gynnwys y model clinigol, yng nghyd-destun rhaglen ehangach Trawsnewid Gwasanaethau Canser;
 - yn cydnabod goblygiadau ariannol prosiectau rhyngddibynnol ond ar wahân;
 - yn caniatáu i brosesau caffael fynd rhagddynt; ac
 - yn ceisio sicrhau y byddai'r 'rhawiau'n barod' ar y safle i'r contractwr a ddewiswyd wrth gwblhau'r agweddau ariannol, sef y pwynt pan fyddai cytundebau ariannol, adeiladu a gwasanaeth ar waith ar gyfer prosiect Model Buddsoddi Cydfuddiannol Canolfan Ganser newydd Felindre.
- 19 Ar adeg y cymeradwyaethau hyn, rhagwelwyd y byddai'r gwaith galluogi a chwblhad yr agweddau ariannol ar gontract Canolfan Ganser newydd Felindre ar 31 Ionawr 2023. Y dyddiad a bennwyd ar gyfer cwblhau'r gwaith adeiladu oedd mis Mawrth 2025, a'r disgwyliad oedd y byddai Canolfan Ganser newydd Felindre yn agor i gleifion ym mis Mehefin 2025.
- 20 Aeth yr Ymddiriedolaeth allan i dendro contract Canolfan Ganser newydd Felindre ym mis Ebrill 2021 a chwblhaodd ei phroses cyn-gymhwyso ar gyfer darpar gynigwyr ym mis Medi 2021.⁴ Mae amcangyfrifon wedi'u diweddarau yr Ymddiriedolaeth ym mis Medi 2021 yn gosod y gost adeiladu yn £226.7 miliwn.

3 Mae **Atodiad 2** yn nodi rhagor o fanylion am y dull talu ar gyfer y Taliad Gwasanaeth Blynnyddol yng nghontract terfynol Canolfan Ganser newydd Felindre sy'n cynnwys ad-dalu pecyn cyllido ACORN am y gwaith adeiladu, cynnal a chadw dros 25 mlynedd, a rhai costau eraill.

4 Mae **paragraffau 73 i 96** yn darparu rhagor o fanylion am y broses gaffael ar gyfer contract Canolfan Ganser newydd Felindre.

- 21 Penododd yr Ymddiriedolaeth ACORN fel ei ‘gyfranogwr llwyddiannus’ ym mis Gorffennaf 2022. Roedd pris tendr terfynol ACORN a gyflwynwyd ym mis Mehefin 2022 yn rhagdybio cost adeiladu cyfalaf o £296.5 miliwn.

Dechreuodd y gwaith o baratoi’r safle yn 2022, ond ni allai contract Canolfan Ganser newydd Felindre fynd rhagddo nes bod cydsyniadau cynllunio ac amgylcheddol wedi eu rhoi

- 22 Roedd angen gwaith galluogi, gan gynnwys rheoli cynefinoedd, cysylltiadau cyfleustodau, datblygu ffyrdd a phontydd pwrpasol ar gyfer y brif fynedfa, mynediad i gerbydau brys, a mynediad adeiladu, ar safle Canolfan Ganser newydd Felindre.⁵ Ym mis Rhagfyr 2017, rhoddodd Cyngor Caerdydd ganiatâd cynllunio amlinellol ar gyfer Canolfan Ganser newydd Felindre. Ym mis Medi 2020, caniatodd y Cyngor geisiadau ychwanegol yn ymwneud â gofynion mynediad.
- 23 Cymeradwyodd Llywodraeth Cymru Achos Busnes Llawn y gwaith galluogi ym mis Ionawr 2022.⁶ Dechreuodd y gwaith galluogi ar y safle yn ystod 2022. Fodd bynnag, cododd oediadau cyn cwblhau’r agweddau ariannol ar gontract Canolfan Ganser newydd Felindre oherwydd y gofyniad i gael yr holl gysyniadau cynllunio ac amgylchedd angenrheidiol yn gyntaf a gymerodd fwy o amser nag yr oedd yr Ymddiriedolaeth wedi ei ddisgwyl.
- 24 Roedd presenoldeb pathewod yn gofyn am Drwyddedau Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop. Er mwyn cael y rhain, roedd angen i’r Ymddiriedolaeth ddangos i Cyfoeth Naturiol Cymru y byddai’n gwneud gwaith lliniaru priodol i wneud iawn am golli cynefin y pathewod. Cwblhaodd Cyfoeth Naturiol Cymru y broses drwyddedu ym mis Medi 2023.
- 25 Rhoddodd Cyngor Caerdydd gydsyniad cynllunio llawn ar gyfer Canolfan Ganser newydd Felindre ym mis Mawrth 2023. Ym mis Mawrth 2024, cytunodd y Cyngor ar gais yr Ymddiriedolaeth am newid amherthnasol i’r cydsyniad hwn; nid oedd angen pont – yn costio £2.6 miliwn – ar gyfer mynediad i gerbydau brys drwy ystad gyfagos mwyach. Yn hytrach, bydd cerbydau brys yn defnyddio llwybr y cerbydau adeiladu pan na fydd ei angen mwyach at y diben hwnnw.

5 Nid ydym wedi adolygu’r penderfyniad ar gyfer y dewis o safle a wnaed yn 2017 ac a oedd hefyd yn berthnasol i geisiadau a wrthodwyd am adolygiad barnwrol yn 2021 (gweler **Atodiad 1**). Yn ei chynnig rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser cychwynnol yn 2014, nododd yr Ymddiriedolaeth ffafriaeth am safle tir llwyd, er nad oedd wedi nodi un penodol.

6 Caffaelodd yr Ymddiriedolaeth y contract gwaith galluogi gyda chontractwr ar wahân gan ddefnyddio cytundeb fframwaith. Nid ydym wedi archwilio’r broses gaffael na’r broses rheoli contract ar gyfer y gwaith galluogi.

- 26 Mae **Arddangosyn 1** yn dangos lleoliad Canolfan Ganser newydd Felindre a'r ganolfan ganser bresennol. Mae hefyd yn nodi trefniadau ar gyfer trosglwyddo tir ac adeiladau rhwng yr Ymddiriedolaeth a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Arddangosyn 1: Lleoliad Canolfan Ganser newydd Felindre a'r ganolfan ganser bresennol, a throsglwyddiadau tir cysylltiedig

Mae'r GIG wedi bod yn berchen ar y safle ar gyfer Canolfan Ganser newydd Felindre, sydd oddeutu 1 cilomedr i'r gogledd-ddwyrain o'r ganolfan ganser bresennol, ers amser hir. Ar hyn o bryd, bwriedir dymchwel y ganolfan bresennol. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi rhestru safle Ysbyty'r Eglwys Newydd ar werth yn fasnachol.



Trosglwyddiadau tir gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro:

- Tir ac adeiladau y mae'r Bwrdd Iechyd wedi eu trosglwyddo i'r Ymddiriedolaeth am gost o £7.8 miliwn.
- Tir ac adeiladau y mae eu hangen ar y Bwrdd Iechyd am 10 mlynedd gyda maes parcio, neu hyd nes y bydd eiddo/ safleoedd amgen ar gael. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi lesio hyn yn ôl i'r Bwrdd Iechyd.
- Tir ac adeiladau y mae'r Ymddiriedolaeth yn berchen arnynt yn barod.

Ffynhonnell: crynodeb Archwilio Cymru yn seiliedig ar bapurau yr Ymddiriedolaeth

Cynyddodd costau contract Canolfan Ganser newydd Felindre oherwydd yr oedi wrth gwblhau'r agweddau ariannol

- 27 Mae costau adeiladu seilwaith newydd wedi codi'n gyflymach na chwyddiant yn ystod y blynyddoedd diwethaf oherwydd effeithiau economaidd pandemig COVID-19, a chyda chynnydd sydyn yn 2022-23 yn dilyn dechrau'r rhyfel yn Wcráin. Mae'r oedi wrth gwblhau'r agweddau ariannol wedi cynyddu amlygiad Canolfan Ganser newydd Felindre i'r risg pris hwn. O dan y broses gaffael, caniatwyd i ACORN godi'r gost adeiladu gan ddefnyddio mynegai prisiau cost adeiladu cydnabyddedig ar gyfer y cyfnod rhwng 17 Mehefin 2022 (dyddiad cyflwyno'r tendr terfynol) a chwblhad yr agweddau ariannol.
- 28 Gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r Ymddiriedolaeth liniaru cynnydd mewn costau drwy beirianeg gwerth. Roedd hyn yn cynnwys yr Ymddiriedolaeth, gyda'u cynghorwyr, yn edrych ar ddewisiadau dylunio megis deunyddiau eraill. Erbyn haf 2023, roedd yr Ymddiriedolaeth wedi nodi £5.8 miliwn o arbedion o'r gost adeiladu.
- 29 Fodd bynnag, arweiniodd adolygiad technegol gan Wasanaeth Ystadau Arbenigol Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ym mis Ionawr 2024 at waith dylunio ychwanegol, gofynion technegol, a chostau gwerth cyfanswm o £2.5 miliwn. Gofynnodd Llywodraeth Cymru am beirianeg gwerth ychwanegol, a nododd £1.8 miliwn o arbedion o'r gost adeiladu.
- 30 Er gwaethaf y newidiadau hyn, mae'r Ymddiriedolaeth wedi ystyried amryw o faterion cynaliadwyedd ehangach wrth benderfynu ar ei dull o warchod a thirlunio'r safle ac wrth ddewis deunyddiau adeiladu. Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu cyflawni sgôr BREEAM 'Ardderchog', ond bellach, mae'n disgwyl cyflawni'r sgôr uchaf, sef 'Rhagorol'.⁷
- 31 Mae sawl ffactor yn pennu'r Taliad Gwasanaeth Blynyddol (gweler **Atodiad 2**) ac nid ydym wedi ceisio ynysu effaith yr arbedion costau adeiladu a nodwyd arno. Fodd bynnag, dywedodd yr Ymddiriedolaeth wrthym yn ystod cam tendro terfynol y broses gaffael fod y model ariannol wedi nodi bod newid o 10% mewn costau adeiladu wedi arwain at newid o 8% i'r Taliad Gwasanaeth Blynyddol.

7 Asesiad cynaliadwyedd yw **BREEAM** – Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu. Mae sgôr BREEAM yn ystyried amrywiaeth o feini prawf ac yn darparu canlyniad naill ai diddosbarth, pasio, da, da iawn, ardderchog, neu ragorol.

Roedd penderfyniad Llywodraeth Cymru i ganiatáu i'r Ymddiriedolaeth fynd rhagddi i gwblhau'r agweddau ariannol heb gymeradwyaeth yr Achos Busnes Llawn yn rhesymol o ystyried cydbwysedd y risg

- 32 Ar 17 Mawrth 2024, cymeradwyodd Bwrdd Strategol Iechyd Llywodraeth Cymru dair o'r pum rhan o'r Achos Busnes Llawn – yr Achos Strategol, yr Achos Economaidd, a'r Achos Masnachol. Cyflwynodd swyddogion Llywodraeth Cymru gyngor i Weinidogion hefyd yn gofyn am gymeradwyaeth i'r Ymddiriedolaeth ymrwymo i gontract gydag ACORN.⁸
- 33 Rhoddodd y Gweinidogion gymeradwyaeth ar 19 Mawrth 2024 ar yr amod bod swyddogion Llywodraeth Cymru yn fodlon ar rai materion manwl. Rydym yn deall bod Bwrdd Strategol Iechyd Llywodraeth Cymru wedi cyfarfod ar 25 Mawrth 2024 a chytuno i ganiatáu i'r Ymddiriedolaeth fynd rhagddi, er na chafodd y cyfarfod hwnnw ei gofnodi. Yna cwblhaodd yr Ymddiriedolaeth yr agweddau ariannol gydag ACORN ar 28 Mawrth 2024.
- 34 Er mwyn cefnogi ei Hachos Busnes Llawn, comisiynodd yr Ymddiriedolaeth gynghorwyr arbenigol i gymharu costau Canolfan Ganser newydd Felindre â meincnodau tebyg yn y diwydiant a chynlluniau ehangach. Nododd y gwaith meincnodi fod Canolfan Ganser newydd Felindre o fewn ystod y meincnodau safonol ar gyfer y diwydiant ac yn is na meincnod y cynllun ehangach pan fo chwyddiant a chostau cylch bywyd megis amnewid a chynnal a chadw yn cael eu hystyried.
- 35 Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi comisiynu ymarfer meincnodi ar wahân a adolygodd gostau Canolfan Ganser newydd Felindre o'u cymharu â chwe phrosiect gofal canser mewn ysbytai diweddar ledled Lloegr a'r Alban. Nododd ei chynghorydd nad oedd y prosiectau meincnodi ar yr un raddfa â Chanolfan Ganser newydd Felindre ac nad oeddent yn cael eu caffael drwy gynlluniau cyllid preifat. Felly, gwnaethant rai addasiadau i ddarparu cymhariaeth debyg am ei thebyg. Daeth y cynghorydd i'r casgliad bod Canolfan Ganser newydd Felindre o fewn ystod hyder rhesymol o'i chymharu â'r prosiectau meincnodi.

8 Roedd y cyngor yn cynnwys crynodeb o hanes prosiect Canolfan Ganser newydd Felindre, gan gynnwys materion dadleuol ynghylch dewis safle a model clinigol. O ystyried newidiadau yng nghyfrifoldeb y Gweinidogion dros amser, roedd sylw i'r hanes hwnnw yn bwysig.

- 36 Yr elfennau Achos Busnes Llawn yr ystyriwyd eu bod yn llai perthnasol i'r penderfyniad i ymrwymo i gontract Canolfan Ganser newydd Felindre, ac a arhosodd heb eu cymeradwyo ym mis Mawrth 2024, oedd:
- Yr Achos Rheoli, wrth aros am ganlyniadau adolygiad allanol o gapasiti rheoli prosiectau yr Ymddiriedolaeth ar gyfer y cyfnod adeiladu (gweler hefyd **baragraffau 119 i 121**).
 - Yr Achos Ariannol, oherwydd bod ansicrwydd o hyd ynghylch rhai agweddau nad ydynt yn adeiladu ar brosiect Canolfan Ganser newydd Felindre; yn bennaf costau cyfalaf offer y tu allan i gontract Canolfan Ganser newydd Felindre, trefniadau llywodraethu ac, fel y nodir uchod, capasiti yr Ymddiriedolaeth i reoli prosiectau.
- 37 Roedd y gwneuthurwyr penderfyniadau yn gallu gweld y fersiynau diweddaraf o'r achosion Rheoli ac Ariannol wrth benderfynu mynd rhagddynt i gwblhau'r agweddau ariannol. Ar wahân i'r sylw diweddaredig o'r materion a ddisgrifir uchod, ni newidiodd fersiynau terfynol y dogfennau hyn yn berthnasol.
- 38 Pe na fyddai'r agweddau ariannol ar brosiect Canolfan Ganser newydd Felindre wedi eu cwblhau yn ystod mis Mawrth 2024, efallai y byddai ACORN wedi gorfod aildrafod cronfeydd buddsoddi am gost ychwanegol. Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru wedi dweud wrth Weinidogion y gallai peidio â chwblhau'r agweddau ariannol erbyn diwedd mis Mawrth 2024 achosi i gyllidwyr y prosiect golli diddordeb, gyda'r posibilrwydd o atal y prosiect rhag mynd rhagddo. Roedd eu cyngor yn nodi y byddai hyn yn arwain at niwed i enw da, costau, a risgiau i gynlluniau Model Buddsoddi Cydfuddiannol yn y dyfodol.
- 39 Pe na fyddai prosiect Canolfan Ganser newydd Felindre wedi mynd rhagddo, ni fyddai adennill costau cyfalaf o £75.8 miliwn ar waith galluogi a phrosiectau cysylltiedig a wnaed eisoes wedi bod yn bosibl. Mae'n bosibl hefyd fod ACORN wedi canlyn yr Ymddiriedolaeth am gostau.
- 40 O ran cydbwysedd y risg, ac er nad yw'n ddelfrydol, credwn fod y penderfyniad i fynd rhagddi i gwblhau'r agweddau ariannol heb gymeradwyaeth ar gyfer yr achosion Rheoli ac Ariannol yn rhesymol. Gyda'r broses o gwblhau'r agweddau ariannol wedi ei chyflawni, dechreuodd y gwaith adeiladu ar Ganolfan Ganser newydd Felindre ym mis Mai 2024.
- 41 Ar 1 Tachwedd 2024, cymeradwyodd Llywodraeth Cymru yr elfennau Achos Busnes Llawn terfynol yr oedd wedi eu gohirio ers mis Mawrth 2024. Cymeradwyodd hefyd fwy o wariant ar waith galluogi a oedd yn ymwneud yn bennaf â dargyfeirio prif gyflenwad dŵr.

- 42 Yr amserlen arfaethedig presennol ar gyfer cwblhau'r gwaith adeiladu ac agor Canolfan Ganser newydd Felindre ar gyfer cleifion yw mis Ebrill 2027 bellach, heb newid o'r hyn a ddisgwyliwyd wrth gwblhau'r agweddau ariannol. Ar ddiwedd y contract ym mis Mawrth 2052, bydd ACORN yn trosglwyddo'r cyfrifoldeb am gynnal a chadw Canolfan Ganser newydd Felindre i'r Ymddiriedolaeth, gyda'r gofyniad y bydd mewn cyflwr cadarn, sy'n golygu bod yn weithredol ddiogel, gan ddangos mân ddirywiad yn unig.

Yn ogystal â chontract Canolfan Ganser newydd Felindre, mae costau llawer ehangach o roi'r canolfan ar waith a'i rheoli dros gyfnod o 25 mlynedd

Rhagwelir y bydd contract Canolfan Ganser newydd Felindre yn costio £885 miliwn

- 43 Ar adeg cymeradwyaeth y Gweinidog ym mis Mawrth 2024, roedd gwaith galluogi wedi costio £31.4 miliwn. Roedd cost adeiladu cyfalaf Canolfan Ganser newydd Felindre wedi codi i £321.0 miliwn, sy'n gynnydd o 8.2% o bris tendr terfynol ACORN ac yn cyfrannu at uchafswm Taliad Gwasanaeth Blynnyddol tybiedig o £35.6 miliwn.⁹ Fodd bynnag, £33.6 miliwn oedd y Taliad Gwasanaeth Blynnyddol terfynol y cytunwyd arno a adlewyrchwyd wrth gwblhau'r agweddau ariannol, a adlewyrchodd i raddau helaeth effaith y newid mewn rhagdybiaethau cyfraddau llog o amgylch cyllid ACORN.
- 44 Gan gynnwys rhagdybiaethau chwyddiant sylfaenol, rhagwelir y bydd Taliadau Gwasanaeth Blynnyddol gan yr Ymddiriedolaeth i ACORN dros y cyfnod o 25 mlynedd ar ôl adeiladu yn dod i gyfanswm o £885.0 miliwn. Mae **Arddangosyn 5** yn **Atodiad 2** yn nodi'r llif arian contractiol sy'n deillio o'r model ariannol. Mae **Atodiad 2** hefyd yn darparu rhagor o wybodaeth am y Taliad Gwasanaeth Blynnyddol a sut y bydd yn cael ei gyfrifo dros amser. Mae'r rhan fwyaf o gost y Taliad Gwasanaeth Blynnyddol wedi ei gosod ymlaen llaw.

9 Rhwng dyddiad cyflwyno'r tendr terfynol ym mis Mehefin 2022 a chwblhad yr agweddau ariannol, bu cynnydd o 11.7% yn y mynegai prisiau cost adeiladu a lywiodd rai o'r newidiadau mewn costau adeiladu – gweler **paragraff 27**. Rydym wedi cynnwys £8.7 miliwn mewn costau datblygu a dynnwyd gan ACORN yn y gost adeiladu cyfalaf o £321.0 miliwn.

Disgwylir i gostau ehangach fod yn £765 miliwn

- 45 Mae prosiectau Canolfan Ganser newydd Felindre a'r gwaith galluogi yn ddwy ran o raglen ehangach Trawsnewid Gwasanaethau Canser. Mae elfennau eraill sy'n ganolog i roi Canolfan Ganser newydd Felindre ar waith yn cynnwys yr 'Ateb Radiotherapi Integredig', sy'n rhan o brosiect digidol ac offer ehangach.¹⁰ Mae hyn yn cynnwys peiriannau triniaeth radiotherapi newydd ac atebion digidol i ddarparu gofal canser y bydd yr Ymddiriedolaeth yn eu gweithredu yng Nghanolfan Ganser newydd Felindre.
- 46 Mae **Arddangosyn 2** yn nodi'r costau craidd y tu allan i gontract Canolfan Ganser newydd Felindre sy'n berthnasol i reoli a chynnal a chadw Canolfan Ganser newydd Felindre dros 25 mlynedd hyd at fis Mawrth 2052. Gyda'i gilydd, amcangyfrifir bod y costau hynny yn £765.3 miliwn, ond gyda chostau na thynnwyd eto sy'n debygol o gynyddu gyda chwyddiant.

¹⁰ Buddsoddiad mewn offer clinigol radiotherapi newydd a gwasanaethau cysylltiedig megis cynnal a chadw, cymorth ac atebion digidol a fydd yn cefnogi'r broses o ddarparu gofal canser yw'r 'Ateb Radiotherapi Integredig'.

Arddangosyn 2: y costau craidd amcangyfrifedig y tu allan i gontract Canolfan Ganser newydd Felindre i roi Canolfan Ganser newydd Felindre ar waith a'i rheoli dros gyfnod o 25 mlynedd ar ôl ei hadeiladu^{1, 2}

Esboniad o'r gost	Cost (£ miliwn)
Costau referniw i weithredu seilwaith ac offer Canolfan Ganser newydd Felindre dros 25 mlynedd gan gynnwys dibrisiant.	557.8
Costau cyfalaf ar gyfer Canolfan Ganser newydd Felindre y tu allan i'r contract Model Buddsoddi Cydfuddiannol gan gynnwys gwaith galluogi, trosglwyddiadau tir, offer a datblygu prosiectau.	154.8
Costau referniw untro trosglwyddo i Ganolfan Ganser newydd Felindre, gan gynnwys dibrisiant asedau presennol a rhedeg dau safle am gyfnod disgwyliedig o 22 wythnos.	42.0
Cyfraniad Llywodraeth Cymru i Fanc Datblygu Cymru er mwyn hwyluso buddsoddiad yn y Model Buddsoddi Cydfuddiannol.	8.2
Ad-dalu costau cynnig i gynigydd aflwyddiannus.	1.3
Costau eraill Llywodraeth Cymru ers 2016, gan gynnwys ffioedd ymgynghori a chyfreithiol.	1.2
Cyfanswm	765.3

Ffynhonnell: dadansoddiad Archwilio Cymru o'r model ariannol, y cais busnes llawn a dogfennau cyngor Gweinidogol

Nodiadau:

¹ Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys Canolfan Ganser newydd Felindre ei hun, y gwaith galluogi, a'r Ateb Radiotherapi Integredig ond nid ydynt yn cynnwys prosiectau eraill rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser. Hefyd, nid yw'r ffigurau yn ystyried unrhyw gostau cyfalaf ar gyfer amnewid asedau y tu allan i gontract Canolfan Ganser newydd Felindre na chostau gwasanaethau cancer, er enghraifft staffio a meddyginiaethau.

² Mae'r ffigurau'n adlewyrchu sylfaen brisiau 2023-24 sy'n gyson â'r Achos Busnes Llawn, felly mae'r costau na thynnwyd eto yn debygol o gynyddu gyda chwyddiant.

Rydym yn amcangyfrif y byddai wedi costio o leiaf £600 miliwn i reoli'r ganolfan bresennol fel arall

- 47 Pe na fyddai'n mynd rhagddi gyda phrosiect Canolfan Ganser newydd Felindre, yn absenoldeb unrhyw ddewis arall, byddai'r Ymddiriedolaeth wedi gorfod parhau i reoli'r ganolfan bresennol a buddsoddi mewn gwaith i fynd i'r afael â'r ôl-gronid cynnal a chadw i ddod ag ardaloedd clinigol i'r safon ofynnol. Rydym wedi amcangyfrif y byddai hyn wedi costio o leiaf £600 miliwn dros 25 mlynedd fel arall.¹¹ Byddai hyn hefyd wedi bod heb unrhyw fuddion ychwanegol y mae Canolfan Ganser newydd Felindre yn eu cynnig.
- 48 Roedd gan Brif Economegydd Llywodraeth Cymru swyddogaeth yn y broses o asesu'r Gymhareb rhwng Cost a Buddion prosiect Canolfan Ganser newydd Felindre. Ar y cam Achos Busnes Amlinellol, dim ond 0.16 oedd y gymhareb. Pan gafodd ei hailasesu ar y cam Achos Busnes Llawn, cynyddodd y gymhareb i 0.94.¹² Roedd y Prif Economegydd wedi nodi bod hyn yn parhau i fod yn gymharol isel ond dywedodd nad yw'r sefyllfa hon yn anghyffredin ar gyfer prosiectau iechyd gwerth uchel tebyg.
- 49 Roedd yr Ymddiriedolaeth wedi nodi, o'i hystyried gyda phrosiectau rhyngddibynnol Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser, fod y gymhareb yn cynyddu i 3.2. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd y prosiectau hynny i lwyddiant cyffredinol Canolfan Ganser newydd Felindre. Nododd yr Ymddiriedolaeth hefyd fod nifer o fuddion nad ydynt yn cael eu meintoli yn rhan o'r gymhareb, megis cynnydd yn y mynediad at dreialon clinigol.

Ar hyn o bryd, mae'r gwariant hyd yma dros £85 miliwn

- 50 Mae **Arddangosyn 3** yn nodi'r gwariant gwirioneddol a adroddwyd gan yr Ymddiriedolaeth rhwng mis Ebrill 2014 a mis Mawrth 2025 ar gyfer rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser yn ei chyfanrwydd. Cyfanswm hyn oedd £85.7 miliwn. Cynhwysir yn ffigur penodol Canolfan Ganser newydd Felindre y £7.8 miliwn sy'n ymwneud â chaffael y tir a'r adeiladau ar safle yr Eglwys Newydd (gweler hefyd **Arddangosyn 1**). Mae'r gwahanol eitemau llinell a ddangosir hefyd yn cynnwys costau o £22.2 miliwn ar gyfer cynghorwyr allanol proffesiynol.

11 Rydym wedi cyfrifo'r ffigur hwn drwy adeiladu ar ffigurau o Achos Busnes Llawn yr Ymddiriedolaeth. Gwnaethom ddefnyddio'r llifau arian heb ddisgownt ar gyfer y 25 mlynedd cyntaf o'r arfarniad o fuddsoddiad economaidd yr Ymddiriedolaeth o'r dewis busnes fel arfer i wneud cymhariaeth deg.

12 Dull gwerthuso sy'n ystyried costau a buddion bywyd cyfan prosiect yw'r Gymhareb rhwng Cost a Buddion. Gwerthusodd yr Ymddiriedolaeth y prosiect dros gyfnod o 61 mlynedd. Mae'r gymhareb a gyfrifwyd yn golygu, am bob £1 a warir y tu hwnt i'r dewis busnes fel arfer, amcangyfrifir y byddai Canolfan Ganser newydd Felindre yn cynhyrchu gwerth 94c mewn buddion ychwanegol. O'i hystyried gyda'r gwaith galluogi, mae'r ganolfan loeren radiotherapi a'r Ateb Radiotherapi Integredig yn rhagweld y bydd y gymhareb yn cynyddu i 3.2.

Arddangosyn 3: cyfanswm gwariant rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cancer sy'n berthnasol i Ganolfan Ganser newydd Felindre, mis Ebrill 2014 i fis Mawrth 2025

Prosiect	Cost (£ miliwn)
Canolfan Ganser newydd Felindre	38.8
Gwaith galluogi	38.7
Prosiectau eraill	5.7
Rheoli prosiectau	2.5
Cyfanswm	85.7

Ffynhonnell: Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre (anarchwiliedig)

- 51 Rhwng mis Ebrill 2016 a mis Mawrth 2025, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi tynnu gwariant uniongyrchol gwerth cyfanswm o £1.2 miliwn.¹³ O hyn, mae £0.9 miliwn yn ymwneud â'r gost o ymgysylltu ag asiant allanol sy'n gweithredu ar ran Llywodraeth Cymru i sicrhau cydymffurfiaeth â pholisi Model Buddsoddi Cydfuddiannol a darparu canllawiau masnachol ers 2016.

Defnyddio Model Buddsoddi Cydfuddiannol

Roedd penderfyniad cynharach Llywodraeth Cymru i ddefnyddio Model Buddsoddi Cydfuddiannol yn golygu nad oedd dewisiadau eraill yn cael eu harchwilio'n llawn yn ystod y cam Achos Busnes Amlinellol ac Achos Busnes Llawn

- 52 Lansiodd Llywodraeth Cymru y Model Buddsoddi Cydfuddiannol ym mis Chwefror 2017 a chyhoeddodd dri chynllun llif prosiectau i'w ddwyn ymlaen ac roedd Canolfan Ganser newydd Felindre yn un ohonynt. Canolfan Ganser newydd Felindre fyddai'r prosiect cyntaf, a hyd yn hyn yn unig brosiect GIG a ariennir gan ddefnyddio Model Buddsoddi Cydfuddiannol.

¹³ Y tu hwnt i'r cyllid y mae Llywodraeth Cymru wedi ei ddarparu i'r Ymddiriedolaeth i gefnogi ei gwariant.

- 53 Ni allai Llywodraeth Cymru roi cofnodion cyfoes inni yn nodi pam na sut y penderfynodd gyntaf y byddai prosiect Canolfan Ganser newydd Felindre yn gynllun Model Buddsoddi Cydfuddiannol. Fodd bynnag, esboniodd swyddogion fod Canolfan Ganser newydd Felindre yn addas oherwydd ei bod yn bodloni'r meini prawf a ganlynf:
- prosiect adeiladu y mae ei gymhlethdod yn is;
 - dim datblygiadau technegol na dulliau adeiladu newydd;
 - graddfa sylweddol o oddeutu £200 miliwn mewn gwariant cyfalaf; a
 - heb ei chyllido / heb ei blaenoriaethu ar hyn o bryd.
- 54 Un o'r gwersi a nodir yn adroddiad Mis Mawrth 2025 y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar gyllid Preifat ar gyfer seilwaith yw y dylai cymeradwyaethau prosiect a phenderfyniadau cyllido fod yn seiliedig ar amcanion masnachol a gweithredol, ac nid ar fodloni dosbarthiadau cyfrifyddu. Esboniodd Llywodraeth Cymru a'r Ymddiriedolaeth inni fod diffyg cyllidebau cyfalaf a oedd ar gael, a'r cyfle i gefnogi buddsoddiad cyfalaf ychwanegol yn lle hynny â chyllid refeniw, wedi dylanwadu'n fawr ar y rhesymeg dros ddefnyddio'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol.
- 55 Dylai'r Achos Masnachol ddangos y bydd y dewis a ffeirir yn arwain at gaffaeliad ymarferol a chytundeb strwythuredig rhwng y sector cyhoeddus a'i ddarparwyr gwasanaeth. Esboniodd yr Achosion Masnachol a gyflwynodd yr Ymddiriedolaeth yn ystod y cam Achos Busnes Amlinellol ac Achos Busnes Llawn, a chyngor swyddogion Llywodraeth Cymru i Weinidogion yn ystod y camau hynny, pam fod Model Buddsoddi Cydfuddiannol yn cael ei ddefnyddio o ystyried y cyfyngiadau ar gyllid cyfalaf. Fodd bynnag, nid oeddent yn nodi achos cyffredinol clir dros pam mai'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol oedd y llwybr caffael gorau posibl. Hynny yw, sut y byddai'n cyflawni cytundeb strwythuredig a manteisiol i'r sector cyhoeddus.¹⁴
- 56 Yn y pen draw, oherwydd bod Llywodraeth Cymru wedi dewis y dull Model Buddsoddi Cydfuddiannol yn gynnar, ni chafodd modelau cyllido eraill eu harchwilio yn llawn yn ystod y camau Achos Busnes Amlinellol neu Achos Busnes Llawn oherwydd yr ystyriwyd nad oedd unrhyw ddewis realistig arall.¹⁵ Pe byddai Llywodraeth Cymru wedi dewis blaenoriaethu'r prosiect hwn ar gyfer gwariant cyfalaf traddodiadol, gallai fod wedi gwneud hynny. Fodd bynnag, byddai hyn wedi bod ar draul prosiectau cyfalaf eraill, boed yn y GIG neu ar draws portffolios eraill.

14 Er enghraifft, drwy nodi sut y byddai'n mynd i'r afael â materion contractiol megis costio risgiau a gwella diffyg perfformiad.

15 Mae ein hadroddiad ym mis Mai 2025 ar Strategaeth Seilwaith a Buddsoddi Cymru yn cynnwys trosolwg o'r ffynonellau cyllid sydd ar gael i Lywodraeth Cymru ar gyfer seilwaith.

Er bod gwneuthurwyr penderfyniadau yn defnyddio 'Cymharydd Sector Cyhoeddus' i gyfiawnhau gwerth am arian y Model Buddsoddi Cydfuddiannol, mae agweddau ar y dull hwnnw yn agored i gael eu herio

- 57 Mae canllawiau 'Llyfr Gwyrdd' Trysorlys EF yn nodi, os dull cyllid preifat yw'r dewis a ffeirir y dylai'r gwneuthurwyr penderfyniadau gynnal dadansoddiad Cymharydd Sector Cyhoeddus. Mae'r Cymharydd Sector Cyhoeddus yn gweithredu fel meincnod gwrthffeithiol teg i asesu gwerth cymdeithasol am arian y dull a ddewisir.
- 58 Comisiynodd yr Ymddiriedolaeth ddadansoddiad Cymharydd Sector Cyhoeddus i gefnogi Achos Economaidd yr Achos Busnes Llawn a ganfu bod y Model Buddsoddi Cydfuddiannol yn ffafriol. Canfu bod ei gost net presennol £55 miliwn yn is na'r Cymharydd Sector Cyhoeddus. Roedd hyn yn welliant amlwg dros y Cymharydd Sector Cyhoeddus yn y cam Achos Busnes Amlinellol.¹⁶
- 59 Ym mis Mai 2024, ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd gan nodi bod cymhariaeth Cymharydd Sector Cyhoeddus yn dangos bod cynllun Model Buddsoddi Cydfuddiannol Canolfan Ganser newydd Felindre yn parhau i fod yn werth am arian o'i gymharu â chyllid cyfalaf traddodiadol. Cyfeiriodd swyddogion Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr yr Ymddiriedolaeth a gyfwelwyd gennym at y dadansoddiad hwn yn aml. Roedd Cyngor Gweinidogol mis Mawrth 2024 a ragflaenodd gwblhad yr agweddau ariannol ar gontract Canolfan Ganser newydd Felindre hefyd yn adlewyrchu'r dadansoddiad hwn.
- 60 Er gwaethaf y gofyniad am Gymharydd Sector Cyhoeddus, ni ddylai'r canlyniad fod yr unig sail dros ystyried rhinweddau'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol. Mae gan y Cymharydd Sector Cyhoeddus gyfyngiadau hefyd, fel y manylir amdanynt yn Review of the VFM assessment process for PFI a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn 2013. Mae'r cyfyngiadau hyn yn cynnwys:
- Nid yw'n gwerthuso gwerth am arian cyllid preifat o'i gymharu â ffynonellau cyllid eraill megis benthyca gan y llywodraeth.
 - Mae'r gyfradd ddisgownt y mae'n ei defnyddio yn uwch na chost benthyca sector cyhoeddus yn nodweddiadol, ac effaith hyn yw gorbwyslais ar gost caffael confensiynol.
 - Gall newidiadau bach yn y mewnbynnau a'r dull effeithio'n berthnasol ar ganlyniad yr asesiad.

16 Cyfrifir y gost presennol net drwy gymhwyso cyfradd ddisgownt i lifau arian drwy gydol oes y prosiect. Dim ond £2.8 miliwn yn is na'r Cymharydd Sector Cyhoeddus yn y cam Achos Busnes Amlinellol oedd cost presennol net y Model Buddsoddi Cydfuddiannol.

61 Er na ddefnyddiodd yr Ymddiriedolaeth y rhagdybiaethau yn afresymol yn ei hasesiad, yn ein barn ni, byddai wedi bod yn ddefnyddiol pe byddai'r Achos Busnes Llawn wedi cydnabod cyfyngiadau'r Cymharydd Sector Cyhoeddus a/neu gyflwyno rhywfaint o ddadansoddiad sensitifrwydd o dan ragdybiaethau gwahanol. Dyma enghreifftiau o ragdybiaethau dadleuol a ddefnyddiodd yr Ymddiriedolaeth, sy'n effeithio ar gyfrifiad y Cymharydd Sector Cyhoeddus:

- Roedd y gyfradd ddisgownt a ddefnyddiwyd yn uwch nag yr oeddem wedi ei disgwyl yn seiliedig ar ein dealltwriaeth o ganllawiau Llyfr Gwyrdd.¹⁷ Roedd y gyfradd a ddefnyddiwyd yn ffafrio'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol oherwydd amseriad llifau arian; mae'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol yn lledaenu costau adeiladu a chyllido dros oes y contract ac mae'r Cymharydd Sector Cyhoeddus yn rhagdybio bod costau adeiladu yn cael eu talu drwy'r cam adeiladu. Ar wahân, ni fyddai hyn yn cael effaith berthnasol, ond ar y cyd â dewisiadau modelu eraill, gallai arwain at ganlyniad gwahanol.
- Mae'r asesiad yn modelu'r llifau arian disgwyledig sy'n deillio o risgiau gweithredol drwy gydol oes y prosiect.¹⁸ Amcangyfrifodd yr Ymddiriedolaeth a'i chynghorwyr y tebygolrwydd y bydd rhai risgiau'n digwydd, a'u heffaith. Fodd bynnag, roedd yr amcangyfrifon hyn yn dibynnu'n bennaf ar farn broffesiynol ac nid oeddent wedi eu cefnogi gan sylfaen dystiolaeth gadarn. Hefyd, cynhaliwyd yr amcangyfrif hwn i ddechrau yn 2017 ac fe'i diweddarwyd yn fwyaf diweddar ym mis Rhagfyr 2022, oddeutu 13 mis cyn y Cymharydd Sector Cyhoeddus terfynol.
- Amcangyfrifodd y cynllun costau a ddarparwyd gan gynghorwyr costau yr Ymddiriedolaeth ar gyfer dadansoddiad Cymharydd Sector Cyhoeddus y gallai'r costau adeiladu terfynol fod wedi cyrraedd £375 miliwn o dan sail dylunio ac adeiladu traddodiadol.¹⁹ Cododd asesiad Cymharydd Sector Cyhoeddus yr Ymddiriedolaeth y costau adeiladu hyd at ganol y cyfnod adeiladu er mwyn adlewyrchu amseriad disgwyledig y gwariant. Fodd bynnag, mae'r dull hwn yn anghyson â'r cynllun costau sy'n rhagdybio bod contract adeiladu pris sefydlog. Cynyddodd hyn y mewnbynnau cost a ddefnyddir yn yr asesiad.

17 Defnyddiodd yr Ymddiriedolaeth gyfradd ddisgownt o 6.09% yn ymwybodol yn seiliedig ar gyngor Llywodraeth Cymru ac i ganiatáu cymhariaeth â'r Cymharydd Sector Cyhoeddus yn y cam Achos Busnes Amlinellol, er bod hynny hefyd yn uwch na'r gyfradd ddisgownt ddisgwyledig ar y pryd. Roeddem wedi disgwyl i'r gyfradd ddisgownt fod yn 5.88% i adlewyrchu gwarediad chwyddiant cyffredinol gan ddefnyddio'r ffactorau perthnasol a gyhoeddwyd ar adeg yr asesiad Cymharydd Sector Cyhoeddus gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol.

18 Costau ychwanegol a ddisgwylir ar ôl y cam adeiladu pan nad yw pethau'n mynd yn ôl y bwriad, megis pan fo costau cynnal a chadw yn fwy na'r disgwyl, yw llifau arian risg gweithredol.

19 O'r £375 miliwn a amcangyfrifodd cynghorwyr costau yr Ymddiriedolaeth, roedd £49 miliwn yn ymwneud â lwfans am risg.

- 62 Er mwyn dangos y pwynt ynghylch dadansoddiad sensitifrwydd, gwnaethom gynnal cyfrifiad Cymharydd Sector Cyhoeddus lle gwnaethom newid y tair rhagdybiaeth sylfaenol hyn.²⁰ Er na fwriadwyd iddi fod yn gywiriad nac yn ailddatganiad o asesiad gwreiddiol yr Ymddiriedolaeth, canfuom fod y gost presennol net ar gyfer y Cymharydd Sector Cyhoeddus £7 miliwn yn is na'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol cyn cost y risgiau gweithredol. Felly, o dan y gwahanol ragdybiaethau hyn, byddai'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol yn cynnig gwerth pe byddai cost risgiau gweithredol y Cymharydd Sector Cyhoeddus £7 miliwn neu fwy y tu hwnt i'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol.
- 63 Y tu hwnt i'r Cymharydd Sector Cyhoeddus, nid oedd dogfennaeth y penderfyniad terfynol yn meintoli buddion y Model Buddsoddi Cydfuddiannol yn benodol. Er enghraifft, mae swyddogion Llywodraeth Cymru a'r Ymddiriedolaeth yn nodi trosglwyddiad risg sylweddol i'r sector preifat fel budd allweddol.²¹ Yn y cam Achos Busnes Amlinellol, cyfrifodd yr Ymddiriedolaeth gyda'i chynghorwyr mai £32.8 miliwn oedd gwerth cyffredinol y risg a drosglwyddwyd i'r sector preifat. Ni chafodd gwerth y trosglwyddiad risg ei ailgyfrif na'i gyflwyno i'r gwneuthurwyr penderfyniadau yn y cam Achos Busnes Llawn.
- 64 Yn ystod ein gwaith, pwysleisiodd gwahanol bartïon hefyd fod y Model Buddsoddi Cydfuddiannol yn annog dull cydweithredol rhwng y rhai a fydd yn defnyddio'r adeilad a'r contractwyr sy'n ei ddylunio, ei adeiladu, a'i gynnal. A gwnaethant dynnu sylw at rwymedigaethau perfformiad a chanlyniadau budd cymunedol yng nghontract Canolfan Ganser newydd Felindre.²² Fodd bynnag, nid yw rhwymedigaethau o'r fath yn unigryw i'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol, a byddem yn disgwyl eu gweld yn cael eu hystyried ar gyfer unrhyw gontract o'r raddfa hon. Maent hefyd yn berthnasol wrth gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.²³

20 Ar gyfer y rhagdybiaethau diwygiedig, gwnaethom ddefnyddio cyfradd ddisgownt o 5.88% (gweler **troednodyn 18**). Gwnaethom ddileu'r holl amcangyfrifon risg gweithredol oherwydd absenoldeb data cyfredol dibynadwy ar adeg yr asesiad Cymharydd Sector Cyhoeddus. Hefyd, gwnaethom rhagdybio contract adeiladu pris sefydlog gan ddefnyddio'r costau a ddarparwyd i'r Ymddiriedolaeth gan ei chynghorydd costau.

21 Y broses o drosglwyddo risgiau, megis oediadau a gorwariant ar gostau, i'r sector preifat yn rhan o gontract yw trosglwyddiad risg.

22 Mae **Arddangosyn 6** yn **Atodiad 2** yn disgrifio diogelwch contractiol allweddol. Mae **Arddangosyn 7** yn **Atodiad 2** yn nodi'r dangosyddion perfformiad allweddol sy'n ymwneud â'r buddion cymunedol a gynhoir ym **mharagraff 84**.

23 Mae contract Canolfan Ganser newydd Felindre yn ei gwneud yn ofynnol i ACORN gynorthwyo a chydweithredu â'r Ymddiriedolaeth i hwyluso cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau yr Ymddiriedolaeth o dan y Ddeddf. Mae'r contract hefyd yn nodi y bydd ACORN yn cydymffurfio â chod ymarfer Llywodraeth Cymru ar gyflogaeth foesebol mewn cadwyni cyflenwi, a ddiweddarwyd ddiwethaf ym mis Ionawr 2025.

Mae contract Canolfan Ganser newydd Felindre yn cydnabod efallai y bydd angen newidiadau dros amser, er y bydd angen i'r Ymddiriedolaeth sicrhau o hyd fod yr hyblygrwydd contractiol hwn yn cyflawni gwerth am arian

- 65 Mae newid bron yn anochel gyda phrosiectau seilwaith hirdymor fel hyn. Mae beirniadaeth ar contractau menter cyllid preifat hirdymor wedi eu canfod yn gymhleth, yn anhyblyg ac yn ddrud wrth ymdrin â newid.²⁴ Mae'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol yn ceisio mynd i'r afael â'r pryderon hyn drwy sefydlu'r protocol newid sy'n ymddangos yn y templedi Model Buddsoddi Cydfuddiannol safonol a ddefnyddiodd yr Ymddiriedolaeth. Mae gan yr Ymddiriedolaeth brotocol llywodraethu hefyd sy'n nodi sut y bydd yn uwchgyfeirio materion o dan y protocol newid.
- 66 Mae'r protocol newid ar gyfer contract Canolfan Ganser newydd Felindre yn categoreiddio newidiadau gwerth isel, canolig, ac uchel.²⁵ Mae darpariaethau allweddol yn cynnwys:
- Caiff yr Ymddiriedolaeth ymgymryd â mân waith gwerth isel os ystyrir ei fod yn risg isel ac nad yw'n gwrthdaro â gwaith arfaethedig ACORN.
 - Rhaid adolygu'r catalog gwaith bach a gwasanaethau ar gyfer newidiadau gwerth isel eraill pob tair blynedd, ac mae'n rhaid i ACORN gyfathrebu a chyfiawnhau unrhyw newidiadau i'r Ymddiriedolaeth.
 - Ar gyfer newidiadau gwerth canolig ac uchel y mae'r Ymddiriedolaeth yn gofyn amdanynt, mae'n rhaid i ACORN ddarparu amcangyfrif i'r Ymddiriedolaeth ei ystyried a'i gymeradwyo cyn eu gweithredu.
- 67 Mae'r protocol newid yn ceisio sicrhau gwerth am arian drwy osod cyfyngiadau ar unrhyw newidiadau a wneir oddi tano. Er enghraifft, mae newidiadau gwerth isel a chanolig yn defnyddio amserlenni cyfraddau sy'n gysylltiedig â mynegeion costau adeiladu. Mae angen newidiadau gwerth uchel i gyflawni cost darged a osodir gan yr Ymddiriedolaeth hefyd. Fodd bynnag, nid yw'r protocol yn cwmpasu sut y bydd yr Ymddiriedolaeth yn profi neu'n meincnodi cost unrhyw newidiadau. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi dweud ers hynny y bydd yn cynnal diwydrwydd dyladwy ariannol ar gost newidiadau gan ddefnyddio cynghorwyr costau.

24 Fel y dangosir er enghraifft gan wersi a nodir gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn ei gwaith ar fentrau cyllid preifat, a grynhoir yn ei [hadroddiad PFI a PF2](#) ym mis Ionawr 2018.

25 Mae newidiadau gwerth isel yn cael eu penderfynu ymlaen llaw mewn catalog gwaith bach a gwasanaethau a aseswyd gan gynghorwyr yr Ymddiriedolaeth. Newid sy'n fwy na £350,000 neu gynnydd o 2% mewn Taliad Gwasanaeth Blynnyddol yw newid gwerth uchel. Nid yw newid gwerth canolig yn newid gwerth uchel nac isel.

68 Esboniodd yr Ymddiriedolaeth inni fod dyluniad yr ysbyty yn caniatáu hyblygrwydd heb sbarduno newidiadau o dan y contract o reidrwydd. Er y bwriad i'w weithredu'n bennaf fel canolfan driniaeth, efallai y bydd angen yr hyblygrwydd hwn ar yr Ymddiriedolaeth os bydd datblygiadau yn y dyfodol yn newid y cydbwysedd rhwng gofal ysbyty cleifion allanol a gofal gartref; ac os yw'r pwyslais yn newid rhwng triniaeth ac atal. Mae'r dyluniad wedi ystyried:

- parthau ehangu mewnol ac allanol posibl;
- manau addasol a modiwlaid ar gyfer newidiadau mewn swyddogaeth glinigol; a
- safoni mathau o ystafelloedd fel y gellir defnyddio ardaloedd at sawl diben.

Galluogodd Banc Datblygu Cymru fuddsoddiad Llywodraeth Cymru yng Nghanolfan Ganser newydd Felindre, er ei fod yn gwneud hynny ar wahân i Lywodraeth Cymru a'r Ymddiriedolaeth i raddau helaeth

69 Chwaraeodd Banc Datblygu Cymru swyddogaeth gyfyngedig yn y prosiect, gan ganolbwyntio'n unig ar benderfynu a ddylid buddsoddi yn seiliedig ar allu'r prosiect i gynhyrchu digon o enillion i ad-dalu buddsoddiad cyfalaf Llywodraeth Cymru.²⁶ Yn ein barn ni, gallai gynnig cyngor ar arddull bancio buddsoddi hefyd, gan helpu i sicrhau bod lefelau risg prosiectau Model Buddsoddi Cydfuddiannol yn y dyfodol yn gydnaws â'r gyfradd enillion disgwyliedig ac yn cynnig gwerth am arian.

70 Yn rhan o'i fuddsoddiad, argymhellodd y Banc Datblygu fod cyfarwyddwr anweithredol yn cael ei benodi ar fwrdd ACORN. Penododd ACORN y cyfarwyddwr a argymhellwyd yn sgil hynny. Nid oedd yr Ymddiriedolaeth na Llywodraeth Cymru yn ymwneud ag argymhell na phenodi'r cyfarwyddwr anweithredol.

71 Gwnaethom awgrymu wrth yr Ymddiriedolaeth a Llywodraeth Cymru y gallai hyn fod yn gyfle a gollwyd iddynt gytuno ar y cyd ar y penodiad a argymhellid. Mewn ymateb, esboniwyd bod hwn yn benderfyniad bwriadol er mwyn osgoi gwrthdaro buddiannau posibl. Er enghraifft, pe byddai'r Ymddiriedolaeth yn ystyried terfynu contract Canolfan Ganser newydd Felindre, byddai'r cyfarwyddwr yn rhwym o dan Ddeddf Cwmnïau 2006 i weithredu er budd gorau'r cwmni, sef ACORN.

²⁶ Yn **Atodiad 2**, nodwn y llifau arian sy'n deillio o'r contract sy'n manylu ar sut y mae Llywodraeth Cymru yn cael ei henillion ar fuddsoddiad.

- 72 Paratôdd y Banc Datblygu adroddiadau diwydrwydd dyladwy ac arfarniad buddsoddi ecwiti ychydig cyn cwblhad yr agweddau ariannol. Hyd y gwyddom, ni chawsant eu rhannu â Llywodraeth Cymru na'r Ymddiriedolaeth ac ni chyfeiriodd yr Achos Busnes Llawn na'r Cyngor Gweinidogol atodol atynt. Yn ein barn ni, gallai Llywodraeth Cymru a'r Ymddiriedolaeth fod wedi defnyddio'r adroddiadau hyn i lywio eu rhesymeg dros ddefnyddio'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol yn fwy cyffredinol.

Caffael contract Canolfan Ganser newydd Felindre

Defnyddiodd yr Ymddiriedolaeth broses gaffael deialog gystadleuol ond roedd yn rhaid iddi gynnig talu costau cynigion penodol i gynnal y tensiwn cystadleuol

- 73 Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 oedd y rheoliadau caffael a oedd mewn grym ar adeg pan gaffaelwyd Canolfan Ganser newydd Felindre. Mae'r rheoliadau hynny wedi eu diddymu ers hynny. Cymhwysodd yr Ymddiriedolaeth broses ddeialog gystadleuol; y dull a ddisgwylir o dan bolisi Model Buddsoddi Cydfuddiannol Llywodraeth Cymru.²⁷ Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu cyfiawnhau ei defnydd o'r dull hwn o'i gymharu â'r amodau a nodir yn rheoliadau 2015.
- 74 Yn dilyn ymgysylltiad cychwynnol â'r farchnad dros y pedwar mis blaenorol, hysbysebodd yr Ymddiriedolaeth yr hysbysiad contract llawn ar gyfer Canolfan Ganser newydd Felindre ar 22 Ebrill 2021. Cyflwynodd tri darpar gontractwr Holiadur Cyn-gymhwyso, gan gadarnhau eu diddordeb mewn cymryd rhan mewn deialog gystadleuol.
- 75 Gwerthusodd yr Ymddiriedolaeth yr enillion Holiadur Cyn-gymhwyso gan ddefnyddio'r meini prawf yr oedd wedi eu hamlinellu ochr yn ochr â'r hysbysiad contract ac mewn meysydd fel seiliau gwahardd, sefyllfa economaidd ac ariannol, a phrofiad.²⁸ Roedd y dull gwerthuso yn ystyried a oedd y contractwyr posibl wedi darparu digon o dystiolaeth yn unol â'r disgwyliadau. Roedd y broses yn cynnwys chwe thîm yn edrych ar agweddau gwahanol ar yr enillion. Roedd pob un o'r timau hyn yn cynnwys cynghorwyr allanol.

27 Proses, ar ôl asesiad cychwynnol o addasrwydd, pan fo'r awdurdodau sy'n contractio yn cymryd rhan mewn trafodaethau gyda chynigwyr i ddatblygu atebion sy'n diwallu anghenion yr awdurdod orau, yn enwedig ar gyfer prosiectau cymhleth neu arloesol, yw'r broses ddeialog gystadleuol.

28 Darparodd cynghorwyr allanol yr Ymddiriedolaeth ddiweddariadau ychwanegol ar sefyllfa economaidd ac ariannol sy'n arwain at asesiad terfynol ar gyfer ACORN ym mis Chwefror 2024 cyn cwblhau'r agweddau ariannol.

- 76 Cyn cwblhau'r broses gyn-gymhwyso, ac ar ôl cael cymeradwyaeth Gweinidogol, cyflwynodd yr Ymddiriedolaeth hysbysiad contract wedi'i ddiweddarau ar 8 Medi 2021. Roedd hyn yn dilyn sylwadau gan gyfranogwyr yn mynegi pryder am gostau cynnig, a nododd dau o'r tri pharti a chanddynt fuddiant efallai y byddent yn tynnu'n ôl.
- 77 Roedd yr hysbysiad wedi'i ddiweddarau yn glir y byddai'r Ymddiriedolaeth yn ad-dalu costau cynigwyr aflwyddiannus pe byddent yn cyflwyno tendr terfynol a oedd yn ddilys, yn wirioneddol, ac yn cydymffurfio. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn cynnwys yr hawl i ddefnyddio a chopio eiddo deallusol o gynigion fel amod ar gyfer unrhyw daliad.
- 78 Nid yw ad-daliad o'r fath yn arfer safonol yn ystod proses caffael cyhoeddus yn y DU, a dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylid ei ystyried. Y rhesymeg oedd y byddai'n cefnogi gwerth am arian ac ansawdd drwy annog rhagor o gynigwyr a chynnal tensiwn cystadleuol.
- 79 Roedd cyngor swyddogion Llywodraeth Cymru i'r Gweinidogion yn pwysleisio sefyllfa unigryw y prosiect, ac na ddylid ystyried ad-dalu costau cynnig fel y norm newydd ar gyfer polisi Model Buddsoddi Cydfuddiannol. Roedd y cyngor hefyd yn darparu enghraifft o rannau eraill o'r DU lle mae costau cynnig wedi eu had-dalu.
- 80 Ar 14 Medi 2021, cwblhaodd yr Ymddiriedolaeth ei gwerthusiad Holiadur Cyn-gymhwyso, a phasiodd y tri chontractwr posibl gan fynd rhagddynt i'r cam nesaf. Fodd bynnag, tynnodd un cynigydd yn ôl cyn i'r ddeialog gystadleuol ddechrau. Derbyniodd yr Ymddiriedolaeth dendrau drafft ar 14 Mawrth 2022 a dechreuodd ddeialog gystadleuol gyda'r ddau gynigydd a oedd yn weddill bythefnos yn ddiweddarach. Ar 27 Mai 2022, cyhoeddodd yr Ymddiriedolaeth Wahoddiad i Gyflwyno'r Tendrau Terfynol.²⁹
- 81 Ym mis Ebrill 2024, gwnaeth yr Ymddiriedolaeth daliad o £1.3 miliwn i'r cynigydd aflwyddiannus. Ers hynny, mae hefyd wedi gwrthod taliad i'r cynigydd a dynnodd yn ôl cyn i'r ddeialog gystadleuol ddechrau.

29 Trwy gydol y broses ar ôl yr Holiadur Cyn-gymhwyso, roedd yr Ymddiriedolaeth yn disgwyl i gyfranogwyr roi gwybod iddi am unrhyw newid mewn amgylchiadau a chadwdd yr hawl i'w gwahardd.

Penderfynodd yr Ymddiriedolaeth fod ACORN wedi cyflwyno'r tendr gorau, yn seiliedig yn bennaf ar ei gystadleurwydd o ran prisiau

- 82 Derbyniodd yr Ymddiriedolaeth y tendrau terfynol ar 17 Mehefin 2022 a chymeradwyodd benodiad ACORN ar 20 Gorffennaf 2022. Roedd 'llythyr cyfranogwr llwyddiannus' yn rheoli'r berthynas rhwng yr Ymddiriedolaeth ac ACORN cyn contract terfynol Canolfan Ganser newydd Felindre. Nododd yr Ymddiriedolaeth mai ACORN a gyflwynodd y tendr mwyaf buddiol yn economaidd, gan ei sgorio o'i gymharu â saith maen prawf dyfarnu (gweler **Arddangosyn 4**).

Arddangosyn 4: meini prawf dyfarnu a phwysïadau ar gyfer caffael Canolfan Ganser newydd Felindre

Meini prawf dyfarnu	Pwysoliadau (%)
Yr ysbyty – gan gynnwys manylion technegol am ddylunio ac adeiladu	42
Pris	30
Cyfreithiol – gan gynnwys meysydd megis cael penaethiaid priodol ar gyfer isgcontractwyr	7
Buddion cymunedol – gan gynnwys sut y byddent yn cael eu cyflawni	6
Rheoli cyfleusterau – gan gwmpasu protocolau cynnal a chadw a throsglwyddo yn ôl	6
Masnachol – gan gynnwys manylion am strwythur cytundeb cyllido a model ariannol y cynigydd	6
Strategaeth, ansawdd, a rheolaeth – megis personél allweddol, sicrhau ansawdd a rheoli rhaglenni	3

Ffynhonnell: dogfennau caffael yr Ymddiriedolaeth

- 83 Roedd pris ACORN yn llawer is na phris ei gystadleuydd. Yn ogystal â'r pris, sgoriodd ACORN yn well ar reoli cyfleusterau a buddion cymunedol. Sgoriodd cystadleuydd ACORN ychydig yn well ar draws y pedwar maen prawf arall.
- 84 Nododd yr Ymddiriedolaeth yn gynnar yn y broses gaffael y byddai gofynion buddion cymunedol sy'n deillio o'r contract yn cyfrannu at nodau llesiant cenedlaethol Cymru. Mae contract terfynol Canolfan Ganser newydd Felindre wedi nodi'r meysydd targed canlynol:
- Creu swyddi a phrentisiaethau
 - Ymgysylltu ag ysgolion
 - Mentrau cymunedol
 - Ymgysylltu â'r gymuned
- 85 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cytuno ar ddangosyddion perfformiad allweddol gydag ACORN ar gyfer y camau adeiladu a gweithredol ym mhob maes targed budd cymunedol (gweler **Arddangosyn 7** yn **Atodiad 2**). Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi cytuno ar gosbau ariannol am beidio â'u cyflawni nhw.

Dilynodd yr Ymddiriedolaeth gyngor cyfreithiol a chymerodd gamau priodol mewn ymateb i bryderon am arferion gwrth-gystadleuol a ddaeth i'r amlwg ar ôl penodiad ACORN

- 86 Craffwyd ar bryderon ynghylch aelodau ACORN yn y cyfryngau ers i'r Ymddiriedolaeth gyhoeddi mai ACORN oedd y contractwr llwyddiannus. Yn benodol, mae dau gwmni sy'n gysylltiedig ag ACORN wedi bod yn rhan o achos cyfreithiol parhaus y tu allan i'r DU. Cyfeirir at y ddau gwmni yn gyffredin fel Kajima a Sacyr. Mae'r ddau ohonynt wedi eu dyfarnu'n euog o ymddygiad gwrth-gystadleuol, ond mae'r dyfarniadau hyn yn parhau i fod yn ddarostyngedig i apêl.
- Yn achos Kajima, mae achos troseddol a gweinyddol yn Japan yn erbyn Kajima Corporation nad yw'n aelod o ACORN.³⁰ Mae dau o'i is-gwmnïau yn aelodau o ACORN, ond nid ydynt yn rhan o'r achos cyfreithiol.
 - Mae'r achos yn erbyn Sacyr yn ymwneud â phenderfyniad rheoleiddiol Sbaen ar 7 Gorffennaf 2022 a ganfu fod Sacyr Construcción S.A. wedi cydgynllwynio ar dendrau seilwaith cyhoeddus. Sacyr Construcción S.A. yw darparwr cymorth ariannol Sacyr UK Limited, sy'n ei wneud yn aelod o ACORN.

30 Roedd y dyfarniadau cychwynnol yn erbyn Kajima Corporation yn achos y gweithdrefnau gweinyddol a throseddol ym mis Rhagfyr 2020 ac ym mis Mawrth 2021 yn y drefn honno.

- 87 Mae'r materion hyn eisoes wedi ymddangos yn rhan o waith craffu gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd.³¹ Rydym hefyd wedi edrych ar sut a phryd y gwnaeth yr Ymddiriedolaeth nodi ac ymateb i'r pryderon hyn.
- 88 Erys yr union ddyddiad pan ddaeth yr Ymddiriedolaeth yn ymwybodol o bryderon gwrth-gystadleuol i ddechrau yn aneglur. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolaeth yn nodi ei bod wedi dod yn ymwybodol o'r pryderon yn ymwneud â Sacyr ar ôl y cyhoeddiad cyhoeddus am ddyfarniad y contract i ACORN ym mis Gorffennaf 2022, ac nid oedd yr Ymddiriedolaeth wedi ffurfioli dyfarniad y contract eto. Dywedodd yr Ymddiriedolaeth ei bod wedi dod yn ymwybodol o'r pryderon gwrth-gystadleuol yn ymwneud â Kajima ym mis Chwefror 2023. Yn y ddau achos, mae'r Ymddiriedolaeth wedi cadarnhau mai drwy'r cyfryngau ac nid yn uniongyrchol gan ACORN neu drwy waith diwydrwydd dyladwy arall y daeth yn ymwybodol.
- 89 Derbyniodd yr Ymddiriedolaeth gyngor cyfreithiol ar bryderon Sacyr ym mis Medi 2022 yn wreiddiol ac yna cafodd dyfarniad y contract ei ffurfioli. Roedd yr Ymddiriedolaeth wedi gofyn am wybodaeth gefndir a chynghor ar a oedd unrhyw seiliau gwahardd yn berthnasol a pha gamau yr oedd angen iddi eu cymryd yn fwy cyffredinol. Gofynnodd yr Ymddiriedolaeth am gyngor ychwanegol, a thebyg, ym mis Chwefror 2023 ar ôl iddi ddod yn ymwybodol o'r achos yn erbyn Kajima. Derbyniodd y cyngor hwnnw ym mis Ebrill 2023.
- 90 Cafodd yr Ymddiriedolaeth gyngor cyfreithiol ychwanegol ym mis Mehefin 2023 hefyd. Roedd wedi ceisio sicrwydd ar y risg o her cyfreithiol llwyddiannus ar ganlyniad y broses gaffael ac a oedd y dystiolaeth o 'fesurau hunanlanhau' a gafwyd gan ACORN yn ddigon i ddangos cydymffurfiaeth â Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015. O dan y rheoliadau, mae mesurau hunanlanhau yn ei gwneud yn ofynnol i gontractwr brofi ei fod wedi:
- talu neu ymrwymo i dalu iawndal mewn cysylltiad ag unrhyw ddifrod a achoswyd gan y drosedd neu'r camymddygiad;
 - egluro'r ffeithiau a'r amgylchiadau mewn modd cynhwysfawr drwy gydweithio'n weithredol â'r awdurdodau sy'n ymchwilio; a
 - chymryd mesurau technegol, sefydliadol a phersonél pendant sy'n briodol i atal rhagor o droseddau neu gamymddygiad.
- 91 Roedd cyngor cyfreithiol yr Ymddiriedolaeth yn nodi bod y dystiolaeth a gafwyd yn darparu lefel briodol o gydymffurfiaeth. Roedd hyn er nad oedd unrhyw rwymedigaeth i'r Ymddiriedolaeth fod wedi gofyn am dystiolaeth ar y cam hwnnw.

31 Cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn tystiolaeth llafar gydag uwch-swyddogion o'r Ymddiriedolaeth yn ei gyfarfod ar 21 Tachwedd 2024.

- 92 Daeth y cyngor cyfreithiol i'r casgliad bod risg isel o her lwyddiannus i ganlyniad caffael Canolfan Ganser newydd Felindre. Roedd y cyngor hefyd yn nodi bod dull gwerthuso Holiadur Cyn-gymhwyso yn gyson â gofynion rheoliadau 2015 a bod ymatebion Holiadur Cyn-gymhwyso ACORN yn briodol – heb unrhyw rwymedigaeth i aelodau perthnasol ACORN fod wedi datgelu manylion am yr achosion cyfreithiol parhaus a ddisgrifir uchod – o ystyried na fu unrhyw ddyfarniadau rhwymol terfynol.
- 93 Mae cyngor cyfreithiol yr Ymddiriedolaeth yn nodi nad oedd unrhyw sail dros wahardd. Mae hyn yn golygu, pe byddai'r Ymddiriedolaeth wedi nodi'r pryderon gwrth-gystadleuol yn gynharach drwy ddiwydrwydd dyladwy ychwanegol, gallai ACORN fod wedi cymryd rhan o hyd yn y broses gaffael. Hefyd, gallai'r Ymddiriedolaeth fod wedi wynebu her gyfreithiol gan ACORN pe byddai wedi ceisio ei wahardd o'r broses heb reswm cyfiawn.
- 94 Mae contract Canolfan Ganser newydd Felindre yn cynnwys gofynion rhannu gwybodaeth ychwanegol mewn cysylltiad ag achos Sacyr. Er gwaethaf y camau cynharach a gymerwyd gan yr Ymddiriedolaeth i geisio sicrwydd gan Kajima, nid yw'r contract yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â rhannu gwybodaeth am achos Kajima. Mae hyn ar y sail bod yr achos yn ymwneud â Kajima Corporation nad yw'n ymwneud yn uniongyrchol â'r prosiect.
- 95 Chwaraeodd cyngorwyr cyfreithiol yr Ymddiriedolaeth swyddogaeth arwyddocaol drwy gydol y broses gaffael, gan ddarparu gwahanol adroddiadau ac asesiadau cyfreithiol wedi eu dogfennu gan gynnwys cyngor ar y pryderon gwrth-gystadleuol. Canfuom fod trywydd archwilio clir ynghylch sut yr ymatebodd yr Ymddiriedolaeth i'r materion hyn ar ôl iddynt gael eu nodi.
- 96 Rydym yn deall pam y gellid bod pryder cyhoeddus ynghylch penodi contractwr sydd â chysylltiad ag arferion gwrth-gystadleuol, hyd yn oed os yw'r digwyddiadau hyn wedi digwydd y tu allan i'r DU. Daeth Deddf Caffael 2023 i rym ym mis Chwefror 2025. Mae'r ddeddfwriaeth newydd hon yn ehangu'r diffiniadau o waharddiadau gorfodol ac yn estyn y gwaharddiadau hyn i gynnwys pobl gysylltiedig a throseddau nad oes angen euogfarn arnynt. Ni allwn wneud sylwadau ar a fyddai dull a chyngor cyfreithiol yr Ymddiriedolaeth wedi bod yn wahanol o dan y drefn newydd hon.

Proses achos busnes a rheoli prosiectau

Dilynodd yr Ymddiriedolaeth brosesau achos busnes sefydledig yn ddigon boddhaol, er y gallai dogfennau allweddol fod wedi darparu mwy o sicrwydd ynghylch yr egwyddor datblygu cynaliadwy

- 97 Mae canllawiau Gwell achosion busnes Trysorlys EF a Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd yn gyntaf ym mis Gorffennaf 2018, yn nodi sut y dylai adrannau gynllunio rhaglenni a phrosiectau. Mae'n adeiladu ar ganllawiau generig Trysorlys EF ledled y DU a nodir yn y Llyfr Gwyrdd a'i fodel pum achos.³²
- 98 Cynlluniwyd y fframwaith i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau cadarn a diffynadwy. Er ei bod yn orfodol defnyddio'r Llyfr Gwyrdd, dylid ei ddefnyddio'n gymesur gan ystyried costau, buddion a risgiau y cynnig.
- 99 Rydym eisoes wedi nodi sut y mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo rhannau gwahanol o'r Achos Busnes Llawn ar adegau gwahanol fel y gellir cwblhau'r agweddau ariannol ar gontract Canolfan Ganser newydd Felindre (gweler **paragraffau 32 i 42**). Ac rydym wedi tynnu sylw at rai bylchau yng nghwmpas yr achosion busnes ynghylch ystyried dewisiadau heblaw'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol, a chyfyngiadau yn rhywfaint o'r dadansoddiad sy'n cefnogi'r dewis Model Buddsoddi Cydfuddiannol (gweler **paragraffau 52 i 64**).
- 100 Er nad ydynt yn effeithio ar y penderfyniadau terfynol, gwnaethom nodi rhai o feysydd eraill yr Achos Busnes Llawn y gellid bod wedi mynd i'r afael â nhw'n well yn ein barn ni. Roeddent yn cynnwys nodi'n gliriach:
 - lefel cyfranogiad arbenigwyr allanol drwy gydol datblygiad yr achos busnes;
 - sut y byddai amcanion prosiect yn cael eu monitro mewn ffordd sy'n gydnaws ag amcanion strategol ehangach yr Ymddiriedolaeth; ac
 - effaith y prosiect ar ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth, ynghyd â'i effaith ar ddatganiadau ariannol cyrff cyhoeddus eraill.³³

32 Fel y trafodir yn adrannau cynharach yr adroddiad hwn, mae'r model pum achos yn cwmpasu'r achosion Strategol, Economaidd, Masnachol, Ariannol a Rheoli.

33 Mae hyn yn cynnwys comisiynu byrddau iechyd ledled Cymru a fydd yn cyfrannu at y costau refferiw cynyddol o weithredu Canolfan Ganser newydd Felindre. Mae'r Achos Busnes Llawn yn cynnwys cadarnhau eu cefnogaeth a chymeradwyaethau ynghylch eu cyfraniadau ariannol.

- 101 Er gwaethaf hyn, rydym o'r farn y gall yr Ymddiriedolaeth ddangos ei bod wedi cymhwyso'r dull model pum achos sefydledig yn ddigon boddhaol drwy'r camau Achos Busnes Amlinellol ac Achos Busnes Llawn. Craffodd Bwrdd Strategol Iechyd Llywodraeth Cymru ar y broses o ddatblygu achosion busnes yn rheolaidd. Hefyd, ym mis Chwefror 2024, cafodd yr Ymddiriedolaeth sicrwydd allanol ychwanegol gan ymgynghorydd seilwaith gofal iechyd ar y modd y mae'n cymhwyso'r fethodoleg.
- 102 Gwnaethom ddisgrifio yn ein hadroddiad ym mis Mai 2025 ar Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru sut nad oedd fframwaith Llywodraeth Cymru wedi ei ddiweddarau i adlewyrchu'r Strategaeth honno. Roedd y Strategaeth ei hun wedi nodi 16 o ganlyniadau strategol a fwriedir sy'n gysylltiedig â'r nodau llesiant cenedlaethol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Datblygodd Llywodraeth Cymru y Strategaeth gyda'r bwriad o wneud y Ddeddf yn sbardun allweddol i'w dull o fuddsoddi mewn seilwaith.
- 103 Ar y cyfan, credwn y gall yr Ymddiriedolaeth ddangos sut yr oedd ei rhwymedigaethau o dan y Ddeddf mewn golwg wrth iddi ddatblygu prosiect Canolfan Ganser newydd Felindre, gyda rhai enghreifftiau clir o'r modd y mae/bydd yr egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio cysylltiedig wedi/yn cael eu cymhwyso iddo.³⁴ Mae llawer o'r ystyriaethau hyn ymhlyg yn sylwebaeth yr achos busnes a'r gwaith sydd wedi mynd rhagddo i sefydlu contract Canolfan Ganser newydd Felindre.³⁵
- 104 Er hynny, nid yw'r canllawiau a'r templedi achos busnes presennol yn cyfarwyddo cyrff i fynd i'r afael â'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn benodol. Yn yr un modd, nid yw cyngor Gweinidogol sy'n cefnogi penderfyniadau allweddol wedi gwneud nodwedd o hyn. Er enghraifft, credwn:
- y gallai dogfennau allweddol fod wedi gwneud cysylltiadau cryfach rhwng prosiect Canolfan Ganser newydd Felindre ac amcanion llesiant ehangach yr Ymddiriedolaeth a Llywodraeth Cymru, y tu hwnt i amcanion polisi iechyd; ac
 - y gellid categoreiddio'r buddion a nodir yn Achos Economaidd yr Achos Busnes Llawn yn dymor byr, tymor canolig, a hirdymor.

34 Y pum ffordd o weithio yw hirdymor, atal, integreiddio, cydweithio, a chynnwys.

35 Er enghraifft, mae golwg hirdymor yn gynhenid ym model cyllid Model Buddsoddi Cydfuddiannol a'r ystyriaeth a roddwyd i ddatblygu hyblygrwydd er mwyn ymateb i newidiadau posibl yn y galw a thriniaethau na ellir eu rhagweld yn awr.

- 105 Mewn ymateb i argymhellion yn ein hadroddiad ar Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, nod Llywodraeth Cymru yw adolygu'r canllawiau achos busnes drwy weithio gyda Thrysorlys EF. Yn rhan o'r adolygiad hwn, credwn fod cyfle i ystyried sut y gall y canllawiau a'r templedi fynd i'r afael yn well â'r broses o gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'i pherthnasedd i werth am arian. Yn y cyfamser, mae materion sy'n ymwneud â chwmpas Cyngor Gweinidogol yn berthnasol i themâu yng nghynllun dysgu a gwella parhaus Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023 i 2025.³⁶

Bu mewnbwn arbenigol a chan randdeiliaid, gwaith craffu, a llywodraethu priodol drwy gydol y camau prosiect Canolfan Ganser newydd Felindre a archwiliwyd gennym

- 106 Bu'n heriol datblygu prosiect ar raddfa Canolfan Ganser newydd Felindre, trefnu cyllid Model Buddsoddi Cydfuddiannol, a chaffael contractwr o dan y Model Buddsoddi Cydfuddiannol. Mae hefyd wedi mynd ymhell y tu hwnt i feysydd pwyslais arferol yr Ymddiriedolaeth.
- 107 Sefydlodd yr Ymddiriedolaeth Swyddfa Rheoli Prosiectau pwrpasol i gefnogi datblygiad a chyflawniad y prosiect. Ers dros ddegawd, mae wedi datblygu capasiti a gallu, gan benodi rheolwyr sydd â phrofiad perthnasol. Fodd bynnag, mae'r prosiect wedi bod angen mewnbwn sylweddol o hyd gan gynghorwyr allanol, ac ar gost cyffredinol sylweddol (gweler **paragraff 50**). Yn ein barn ni, mae lle i Lywodraeth Cymru edrych am gyfleoedd i drosglwyddo mwy o wybodaeth er mwyn lleihau'r ddibyniaeth ar gyngor allanol mewn prosiectau Model Buddsoddi Cydfuddiannol yn y dyfodol os bydd y dull hwn yn parhau i gael ei ddefnyddio dros amser.³⁷
- 108 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ceisio cymhwyso arferion da cydnabyddedig wrth reoli prosiectau, gyda rheolaethau priodol ac adolygiadau sicrwydd porth annibynnol a drefnwyd gan Lywodraeth Cymru. Bu amryw o adolygiadau archwilio mewnol yn yr Ymddiriedolaeth a Llywodraeth Cymru hefyd.
- 109 Hefyd, roedd trefniadau o dan broses Model Buddsoddi Cydfuddiannol Llywodraeth Cymru yn cynnwys adolygiadau Pwyntiau Cymeradwyo Masnachol. Roedd yr adolygiadau hynny yn cynnwys arbenigwyr annibynnol a archwiliodd agweddau masnachol y cynllun - gan gynnwys fforddiadwyedd, cyflawnadwyedd, a gwerth am arian - ar bum pwynt penodol cyn cwblhau'r agweddau ariannol.

36 Y cynllun hwn oedd ymateb Llywodraeth Cymru i adolygiad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol mis Rhagfyr 2022 o weithrediad y Ddeddf gan Lywodraeth Cymru.

37 Rydym yn cydnabod bod defnyddio ymgynghorwyr allanol yn debygol o fod yn angenrheidiol ac yn briodol i ryw raddau mewn unrhyw brosiect seilwaith cyfalaf mawr.

- 110 Yn gyffredinol, nid yw'r gwahanol brosesau adolygu hyn wedi nodi materion sy'n peri pryder sylfaenol. Pan wnaethant nodi camau gweithredu a argymhellir, canfuom eu bod wedi eu gweithredu i raddau helaeth a bod eu gweithrediad wedi ei ddilyn yn rhan o brosesau llywodraethu a chraffu ehangach.
- 111 Mae gwahanol rannau o Lywodraeth Cymru a GIG Cymru wedi gweithio gyda'i gilydd i ddarparu cyngor ac i graffu drwy brosiect Canolfan Ganser newydd Felindre. Mae'r llywodraethu cyffredinol wedi cynnwys tair lefel:
- Lefel un - Ymddiriedolaeth weithredol: ffrydiau gwaith amrywiol sydd wedi datblygu dros amser a bwrdd prosiect Canolfan Ganser newydd Felindre.
 - Lefel dau – Ymddiriedolaeth gorfforaethol: gan gynnwys ei Bwrdd a phwyllgor craffu ar brosiect Canolfan Ganser newydd Felindre.³⁸
 - Lefel tri – Strategaeth a pholisïau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys ei Bwrdd Strategol Iechyd a'i Bwrdd Buddsoddi mewn Seilwaith Iechyd, a mewnbwn gan Swyddfa ei Rhaglen Model Buddsoddi Cydfuddiannol.³⁹
- 112 Mae'n ymddangos bod y strwythurau a'r prosesau cysylltiedig hyn wedi gweithredu'n rhesymol ar y cyfan. Fodd bynnag, yn seiliedig ar sylwadau a gawsom yn ystod ein gwaith, gallai prosiect Canolfan Ganser newydd Felindre fod wedi elwa o nodi swyddogaethau a chyfrifoldebau priodol y partïon sector cyhoeddus allweddol dan sylw yn gliriach. Er enghraifft, rydym yn meddwl y gellid bod wedi cytuno ar femorandwm cyd-ddealltwriaeth gyda phartïon sector cyhoeddus allweddol (gweler **Atodiad 4**) yn gynharach yn y broses o wneud penderfyniadau i fynd i'r afael â hyn.
- 113 Rydym hefyd wedi arsylwi, cyn i Lywodraeth Cymru gymeradwyo'r Achos Busnes Llawn, fod Bwrdd Strategol Iechyd Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo elfennau Model Buddsoddi Cydfuddiannol yr achos busnes a bod ei Bwrdd Buddsoddi mewn Seilwaith Iechyd wedi cymeradwyo elfennau traddodiadol y cynnig cyfalaf, gan gynnwys costau tîm y prosiect. Yn ein barn ni, efallai y byddai dull cymeradwyo un stop wedi symleiddio'r broses gymeradwyo.

38 Cymeradwyodd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yr Achos Busnes Amlinellol a'r Achos Busnes Llawn cyn i'r dogfennau hyn fynd at Lywodraeth Cymru ar gyfer ei phenderfyniadau terfynol. O fis Mai 2025, mae'r is-bwyllgor craffu ar brosiect Canolfan Ganser newydd Felindre wedi disodli'r is-bwyllgor craffu ar Raglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser. Mae Pwyllgor Archwilio yr Ymddiriedolaeth hefyd wedi ystyried prosiect Canolfan Ganser newydd Felindre pan fo materion o fewn ei gylch gorchwyl.

39 Darparodd Swyddfa Rhaglen Model Buddsoddi Cydfuddiannol arbenigedd technegol a chyfreithiol i'r Ymddiriedolaeth. Mae Swyddfa Rhaglen Model Buddsoddi Cydfuddiannol wedi gosod y polisi masnachol ac yn sicrhau y cydymffurfir â'r polisi. Mae Trysorlys EF a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi nodi chwe swyddogaeth allweddol yn flaenorol mewn adroddiad ar reoli rhaglenni buddsoddi cyfalaf cymhleth gan ddefnyddio cyllid preifat yn 2010. Roedd y canllawiau hynny'n argymhell bod pob un o'r chwe swyddogaeth yn cael eu cynnal gan un uned. Mae Swyddfa Rhaglen Model Buddsoddi Cydfuddiannol yn mynd i'r afael â'r swyddogaethau hyn i raddau helaeth. Fodd bynnag, nid oes ganddi'r capasiti i redeg prosiectau Model Buddsoddi Cydfuddiannol unigol ei hun, ac felly mae'n mabwysiadu swyddogaeth oruchwylio.

- 114 Mae'r model clinigol rhanbarthol ar gyfer Canolfan Ganser newydd Felindre yn rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser yn destun rhywfaint o ddadl ac mae rhai clinigwyr yn credu y dylai gwasanaethau cancer yr Ymddiriedolaeth gael eu cydleoli mewn ysbyty aciwt. Fodd bynnag, mae'r ganolfan bresennol eisoes yn gweithredu mewn rhwydwaith rhanbarthol ac ystyriwyd bod cydleoli yn ddewis na ellir ei gyflawni o fewn yr amserlen y mae angen disodli'r ganolfan bresennol.
- 115 Roedd yr Ymddiriedolaeth wedi comisiynu adolygiad annibynnol o'r rhwydwaith rhanbarthol gan Ymddiriedolaeth Nuffield a adroddodd yn 2020. Gwnaeth ['Cyngor Nuffield'](#) argymhellion ar gyfer gwella'r rhwydwaith presennol a'r rhwydwaith arfaethedig er mwyn mynd i'r afael â phryderon diogelwch cleifion. Cyfeiria'r Achosion Strategol yn yr Achos Busnes Amlinellol a'r Achos Busnes Llawn at y cyd-destun hwn. Mae'r argymhellion yn effeithio ar y rhwydwaith rhanbarthol gan gynnwys cynlluniau ar gyfer Canolfan Ganser newydd Felindre, prosiectau dibynnol yn rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser, ac ysbytai cyffredinol dosbarth yn y rhanbarth.
- 116 Roedd yr Ymddiriedolaeth hefyd wedi bod yn darparu adroddiadau i Grŵp Arweinyddiaeth Canser Cydweithredol de-ddwyrain Cymru. Ymhlith pethau eraill, darparodd y Grŵp hwn, a sefydlwyd yn 2019, arweinyddiaeth ranbarthol i raglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser. Roedd y Grŵp hefyd wedi cytuno i fynd rhagddo ag argymhellion gan Gyngor Nuffield.
- 117 Cafodd y Grŵp ei ddiwygio yn 2023 er mwyn creu un bwrdd rhaglen cancer rhanbarthol yn rhan o drefniadau cynllunio rhanbarthol ehangach y GIG. Mae camau gweithredu sy'n deillio o argymhellion Cyngor Nuffield yn rhan o raglen waith y bwrdd rhanbarthol.
- 118 Sefydlodd yr Ymddiriedolaeth Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu Canolfan Ganser newydd Felindre benodol ym mis Hydref 2023 sy'n nodi'r gwahanol randdeiliaid allweddol a dulliau cyfathrebu i wella cyfranogiad. Rydym yn cydnabod bod yr Ymddiriedolaeth wedi cymryd amrywiaeth o gamau i ymgysylltu â rhanddeiliaid ar bwyntiau cynharach ym mhrosiect Canolfan Ganser newydd Felindre, er na wnaeth yr Achos Busnes Llawn ymarfer hyn yn fanwl.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi newid y modd y mae'n rheoli ac yn goruchwyllo prosiect Canolfan Ganser newydd Felindre yn ystod y cam adeiladu mewn ymateb i adroddiad allanol

- 119 Nid ydym wedi ystyried cynnydd o ran goruchwyllo'r gwaith adeiladu yn rhan o'r gwaith archwilio sy'n llywio'r adroddiad hwn. Fodd bynnag, ym mis Chwefror 2024, cododd un o'r adolygiadau Pwynt Cymeradwyo Masnachol (gweler **paragraff 109**) bryderon am gapasiti rheoli yr Ymddiriedolaeth yn ystod y cam adeiladu. Yn dilyn hyn, comisiynodd yr Ymddiriedolaeth adolygiad allanol ychwanegol sy'n canolbwyntio ar lywodraethu a galluoedd.
- 120 Gohiriodd Llywodraeth Cymru ei chymeradwyaeth o Achos Rheoli yr Achos Busnes Llawn tan ar ôl yr adolygiad llywodraethu a galluoedd a adroddwyd ym mis Mehefin 2024 (gweler hefyd **baragraffau 32 i 42**). Gwnaeth yr adolygiad 11 o argymhellion i gryfhau gallu a symleiddio'r trefniadau llywodraethu, a byddai tri ohonynt hefyd yn gwella'r cydweithrediad rhwng yr Ymddiriedolaeth a Llywodraeth Cymru. Er nad oedd yr Ymddiriedolaeth wedi gweithredu'r holl argymhellion cyn iddi gwblhau'r Achos Rheoli, ymrwymodd i'w gweithredu nhw'n llawn. Ers hynny, mae'r Ymddiriedolaeth wedi penderfynu peidio â mynd rhagddi ag un cam penodol y mae'n ystyried na fyddai'n gosteffeithiol.
- 121 Ni allai'r Ymddiriedolaeth lenwi rhai swyddogaethau arbenigol yn ei Swyddfa Rheoli Prosiectau ar gyfer y cam adeiladu cyn cwblhau'r agweddau ariannol oherwydd bod y cyllid angenrheidiol yn amodol ar brosiect Canolfan Ganser newydd Felindre yn mynd rhagddo. Mae'r Achos Busnes Llawn wedi nodi bod y swyddogaethau hyn yn wag, ond mae'r Ymddiriedolaeth wedi eu llenwi ers hynny.
- 122 Argymhellodd yr adolygiad Pwynt Cymeradwyo Masnachol ym mis Chwefror 2024 hefyd y dylid gweithredu cynllun dirprwyo i nodi penderfyniadau y gallai'r Ymddiriedolaeth eu gwneud yn ystod y cam adeiladu heb orfod eu cyfeirio am gymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru yn gyntaf. Canfu'r adolygiad allanol o lywodraethu a galluoedd fod cynllun dirprwyo yn cael ei ddatblygu ac yn rhoi blaenoriaeth uchel i'w weithredu. Mae wedi ei sefydlu ers hynny.

- 123 Mae rhywfaint o wybodaeth gyhoeddedig ar gael am y cynnydd o ran adeiladu drwy bapurau yr Ymddiriedolaeth, yn enwedig gan ei his-bwyllgor craffu ar brosiect Canolfan Ganser newydd Felindre. Mae papurau diweddar yn nodi, er bod yr Ymddiriedolaeth yn cyflawni ei rhwymedigaethau, fod y gwaith adeiladu wedi dod ar draws oediadau ond bod ymdrechion i gyflymu'r cynnydd ar y gweill.
- 124 Yn ariannol, mae'r Ymddiriedolaeth yn adrodd bod y prosiect yn parhau i fod ar y trywydd iawn ac o fewn y gyllideb. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi rhoi sgôr statws oren cyffredinol i'r prosiect, sy'n dangos bod yr Ymddiriedolaeth wedi nodi risgiau ond ei bod yn eu rheoli nhw.⁴⁰
- 125 Mae digomisiynu a'r posibilrwydd o waredu tir ac adeiladau dros ben, gan gynnwys y ganolfan ganser bresennol, yn ddarostyngedig i'w hachos busnes ei hun. Nid yw hyn wedi ei gymeradwyo eto. Er y gallai'r datblygiadau hyn arwain at enillion i'r pwrs cyhoeddus, bydd hyn yn cael ei benderfynu gan y camau nesaf nad ydynt wedi eu gweithio drwyddynt eto. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyhoeddi ei bod wedi rhestru safle yr Eglwys Newydd i'w werthu'n fasnachol ar hyn o bryd.

40 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi mabwysiadu dull sgorio coch, oren, gwyrdd i sgorio statws y prosiect.

Argymhellion

Ar gyfer Llywodraeth Cymru

A1 Wrth ddiweddarau gwell canllawiau achos busnes, dylai Llywodraeth Cymru osod disgwyliadau clir ynghylch cwmpasu:

- sut, wrth asesu'r defnydd o gyllid preifat, y dylai'r asesiad hwn gynnwys cwmpas buddion ac anfanteision a chydabod unrhyw gyfyngiadau sydd gan y dull asesu neu'r rhagdybiaethau sy'n ei lywio (gweler **paragraffau 52 i 64**);
- lefel cyfranogiad arbenigwyr allanol drwy gydol datblygiad yr achos busnes (gweler **paragraff 100**);
- effaith prosiect ar ddatganiadau ariannol, gan gynnwys ar gyfer unrhyw gyrff cyhoeddus sy'n cyfrannu tuag ato (gweler **paragraff 100**); a
- sut y bydd cynigion yn cyfrannu at amcanion strategol ehangach a sut y mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'i ffyrdd cysylltiedig o weithio wedi eu cymhwyso (gweler **paragraffau 100 i 105**).

A2 Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Ymddiriedolaeth a chyrrff cyhoeddus eraill sy'n gysylltiedig i ddysgu, a rhannu'n ehangach, wersi o brosiect Canolfan Ganser newydd Felindre y gellir eu cymhwyso i brosiectau seilwaith ar raddfa fawr yn y dyfodol. Ymhlith pethau eraill, mae'r materion i'r ymarfer hwn fyfyrion arnynt yn cynnwys:

- cyfleoedd i symleiddio prosesau, gan arbed amser a chostau o bosibl, yng nghyd-destun hanes hir prosiect Canolfan Ganser newydd Felindre (gweler **paragraffau 14 i 42 a 113**);
- sut y gallai Banc Datblygu Cymru chwarae mwy o ran, ac ar gam cynharach, er mwyn darparu cyngor ar gytundebau cyllido preifat arfaethedig (gweler **paragraffau 69 i 72**);
- cyfleoedd i annog trosglwyddiadau gwybodaeth a meithrin capasiti y sector cyhoeddus er mwyn lleihau'r ddibyniaeth ar gyngor allanol (gweler **paragraff 107**); a
- sut y gellir nodi'n glir swyddogaethau a chyfrifoldebau y cyrrff cyhoeddus allweddol sy'n ymwneud â phrosiectau, gan gynnwys y rhai sydd â chyfrifoldebau cynllunio, ymlaen llaw (gweler **paragraffau 22 i 25 a 112**).

Ar gyfer yr Ymddiriedolaeth

A3 Er mwyn darparu sicrwydd parhaus ynghylch gwerth am arian, dylai'r Ymddiriedolaeth sefydlu gweithdrefn a ddogfennir yn glir i sicrhau bod y cyngor y mae'n bwriadu ei gael er mwyn helpu i asesu newidiadau a wneir o dan gontract Canolfan Ganser newydd Felindre yn cynnwys meincnodi a phrofi'r farchnad (gweler **paragraff 67**).

A4 Dylai'r Ymddiriedolaeth adolygu a diweddarau ei hamcanion prosiect a'i dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer prosiect Canolfan Ganser newydd Felindre er mwyn gwneud yn glir sut y maent yn gydnaws â'i hamcanion strategol ehangach ac yn cyfrannu atynt (gweler **paragraff 100**).



Atodiadau

- 1 Ynglŷn â'n gwaith
- 2 Ynglŷn â chontract Canolfan Ganser newydd Felindre
- 3 Amcangyfrifon cost ar gyfer Canolfan Ganser newydd Felindre ar wahanol adegau
- 4 Partïon sector cyhoeddus sy'n ymddangos yn yr adroddiad hwn a thermau allweddol eraill

1 Ynglŷn â'n gwaith

Cwmpas yr archwiliad

Ein prif amcanion archwilio oedd:

- Rhoi mewnwelediad a sicrwydd mewn cysylltiad â phrosesau gwneud penderfyniadau Llywodraeth Cymru a'r Ymddiriedolaeth.
- Esbonio statws prosiect Canolfan Ganser newydd Felindre a'r costau cysylltiedig.
- Darparu gwybodaeth annibynnol mewn cysylltiad â materion sydd wedi bod yn destun rhywfaint o ddadl cyhoeddus a gwleidyddol.
- Nodi pwyntiau dysgu mewn cysylltiad â rheoli a chyllid prosiectau cyfalaf y sector cyhoeddus.

Rydym yn ymwybodol bod corff o glinigwyr a rhai yn y gymuned leol wedi codi pryderon am brosiect Canolfan Ganser newydd Felindre. Rydym wedi pwysleisio ers dechrau ein gwaith mai mater i'r cyrff cysylltiedig yw penderfyniadau am y prosiect a'i drefniadau contractio. Nid oes gan yr Archwilydd Cyffredinol unrhyw bwerau i ymyrryd yn y broses o wneud penderfyniad.

Pan fo materion a godwyd gyda ni gan bartïon eraill yn berthnasol i gwmpas ein gwaith, rydym wedi eu cadw mewn cof. Fodd bynnag, rydym wedi ffurfio ein safbwynt ein hunain yn seiliedig ar y dystiolaeth yr ydym wedi ei hadolygu ac yn ystyried cyfreithiau ehangach a chanllawiau gweithdrefnol sy'n berthnasol i'r broses o wneud penderfyniadau.

Yn 2021, lansiodd unigolyn her gyfreithiol i gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru o'r Achos Busnes Amlinellol, gan ofyn am adolygiad barnwrol o'r penderfyniad. Cyfeiriodd yr her at dair prif sail a grynhoir fel a ganlyn:

- Bod dyletswydd 'Tameside'⁴¹, wedi ei thorri, yn benodol ynghylch ymholiadau ar ddichonoldeb cydleoli yn rhan o ddatblygiad Ysbyty Athrofaol Cymru yn y dyfodol.
- Nid oedd y penderfyniad yn cydymffurfio â gofynion bioamrywiaeth o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.
- Nid oedd y penderfyniad yn cydymffurfio â dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

41 isgrifir dyletswydd Tameside yn gyffredin fel y ddyletswydd sydd ar wneuthurwyr penderfyniadau i wneud ymchwiliad digonol. Rhaid i wneuthurwyr penderfyniadau gymryd camau rhesymol i ymgyfarwyddo â'r wybodaeth berthnasol ac i wneud ymholiadau digonol.

Gwrthodwyd y cais am adolygiad ym mis Medi 2021. Adnewyddodd yr un unigolyn ei gais am adolygiad, a wrthodwyd ym mis Tachwedd 2021. Mae dyfarniad diweddarach ym mis Mawrth 2022 ar asesu costau yn crynhoi'r cefndir cynharach.

Roedd ein pwyslais ar ddatblygiadau o amgylch ac ers cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol ar gyfer Canolfan Ganser newydd Felindre ym mis Mawrth 2021, er ein bod yn trafod rhai digwyddiadau cynharach.⁴² Ac er bod prosiect Canolfan Ganser newydd Felindre yn rhan o raglen ehangach Trawsnewid Gwasanaethau Canser yr Ymddiriedolaeth yn ne-ddwyrain Cymru a'n bod nodi rhai o'i gostau ehangach, ar brosiect Canolfan Ganser newydd Felindre ei hun y buom yn canolbwyntio.

Rydym wedi defnyddio gwybodaeth o ddogfennaeth gynharach, er enghraifft ynghylch amcangyfrifon costau, ond nid ydym wedi mynd ati i archwilio hanes llawn y prosiect. Mae'r dogfennau niferus yr ydym wedi eu hadolygu yn cynnwys cyngor arbenigol ac adroddiadau y mae cyrff cyhoeddus cysylltiedig wedi eu comisiynu gan sefydliadau eraill. Nid ydym wedi ceisio beirniadu'r dadansoddiad hwnnw. Fodd bynnag, rydym wedi ystyried sut y byddai rhagdybiaethau gwahanol yn effeithio ar y canlyniadau ar gyfer y Cymharydd Sector Cyhoeddus ar gyfer y Model Buddsoddi Cydfuddiannol (gweler **Dulliau** isod).

Hefyd, nid ydym wedi archwilio'r cynnydd gyda'r gwaith adeiladu parhaus eto, er ein bod yn trafod rhai materion cysylltiedig.

Ar wahân i'r adolygiad hwn, rydym wedi nodi Canolfan Ganser newydd Felindre fel risg o gamddatganiad perthnasol posibl ac felly mae'n faes pwyslais ar gyfer ein harchwiliad blynyddol o ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth. Hyd yn hyn, nid ydym wedi nodi unrhyw bryderon penodol sy'n effeithio ar ein barnau archwilio cyffredinol.

42 Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi cyhoeddi llinell amser digwyddiadau sy'n ymwneud â phrosiect Canolfan Ganser newydd Felindre, gan ddechrau o 2010. Mae'r llinell amser yn cynnwys fersiynau golygiedig o rai dogfennau gwneud penderfyniadau allweddol.

Cwestiynau a meini prawf archwilio

Cwestiynau

Aeth ein harchwiliad i'r afael â'r cwestiynau allweddol canlynol:

- A yw'r broses achos busnes yn dangos bod canllawiau Trysorlys EF a'r arferion da safonol wedi eu dilyn yn gyffredinol?
- A yw manylion y ddogfennaeth graidd sy'n cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau yn rhoi sicrwydd bod ffactorau perthnasol wedi eu hystyried yn briodol wrth wneud y penderfyniad?
- A yw penderfyniadau a wneir ynghylch y prosiect a rheolaeth gyffredinol y prosiect yn dangos bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy wedi ei chymhwyso?
- A yw'r broses o wneud penderfyniadau yn cynnwys lefel briodol o sicrwydd, gwaith craffu, a her?
- A ellir dangos proses gaffael tryloyw a chystadleuol?
- A all Llywodraeth Cymru a'r Ymddiriedolaeth ddangos pam mai'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol yw'r dull cyflawni mwyaf priodol ar gyfer y prosiect?

Meini prawf

Gwnaethom seilio ein meini prawf archwilio ar adnoddau gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Ganllawiau Trysorlys EF ar arfarnu a gwerthuso mewn llywodraeth ganolog ('y Llyfr Gwyrdd') a'r canllawiau cysylltiedig.
- Buddsoddi mewn seilwaith GIG Cymru: canllawiau, gan Lywodraeth Cymru.
- Canllawiau arfer da y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ac adroddiadau cyhoeddus ar y defnydd o gyllid preifat ar gyfer seilwaith.
- Canllawiau Gwell achosion busnes: fframwaith gwneud penderfyniadau buddsoddi a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF a Llywodraeth Cymru.
- Canllawiau mewnol Archwilio Cymru, gan gynnwys ein 'dangosyddion cadarnhaol' sef set ddarluniadol o nodweddion sy'n disgrifio sut y gallai cyrff gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn effeithiol. Rydym wedi defnyddio'r dangosyddion hyn i lywio archwiliadau egwyddor datblygu cynaliadwy blaenorol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Gwnaethom ddatblygu'r dangosyddion cadarnhaol drwy ymgysylltu â chyrff cyhoeddus, a chawsant eu llywio gan gyngor a chanllawiau gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.

Dulliau

Adolygu dogfennau

Gwnaethom adolygu amrywiaeth eang o ddogfennaeth sy'n ymwneud â gwneud penderfyniadau ar gyfer Canolfan Ganser newydd Felindre, gan gynnwys:

- papurau cyfarfodydd a chofnodion ar gyfer Bwrdd Buddsoddi mewn Seilwaith Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Strategol Iechyd;
- papurau cyfarfod a chofnodion Bwrdd yr Ymddiriedolaeth ac Is-bwyllgor Craffu ar Ganolfan Ganser newydd Felindre/ Trawsnewid Gwasanaethau Canser;
- papurau cyfarfod a chofnodion Pwyllgor Buddsoddi Banc Datblygu Cymru a dogfennaeth diwydrwydd dyladwy gan y Banc Datblygu;
- sesiynau briffio Cyngor Gweinidogol Llywodraeth Cymru;
- yr achosion busnes terfynol a gymeradwywyd ar gyfer canolfan ganser newydd Felindre ac iteriadau cynharach nas cymeradwywyd;
- adroddiadau adolygu prosiectau Llywodraeth Cymru;
- adroddiadau archwilio mewnol Llywodraeth Cymru a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru – ar gyfer Llywodraeth Cymru a'r Ymddiriedolaeth yn y drefn honno;
- adroddiadau asesu caffaeliadau a dyfarniadau; a
- chyngor ac adroddiadau proffesiynol arbenigol eraill a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, yr Ymddiriedolaeth a'r Banc Datblygu.

Rydym hefyd wedi ystyried tystiolaeth llafar ac ysgrifenedig a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru a'r Ymddiriedolaeth i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd ers mis Mai 2023.

Cyfweliadau lledstrwythuredig

Gwnaethom gynnal cyfweliadau â detholiad o swyddogion Llywodraeth Cymru o adrannau Trysorlys a Chyfalaf, Ystadau a Chyfleusterau y GIG Llywodraeth Cymru.

Gwnaethom gynnal cyfweliadau hefyd ag amryw o aelodau bwrdd ac uwch-staff o'r Ymddiriedolaeth.

Ymweld â'r safle

Er nad ydym wedi archwilio'r cynnydd gyda'r gwaith adeiladu, gwnaethom ymweld â'r safle adeiladu ym mis Mawrth 2025 er mwyn deall y cyd-destun yn well.

Dadansoddiad ariannol

Gwnaethom ddadansoddiad lefel uchel o'r modelau ariannol a'r dadansoddiadau ariannol a ddefnyddiodd Llywodraeth Cymru a'r Ymddiriedolaeth i lywio'r broses o wneud penderfyniadau. Yn fwy penodol, gwnaethom:

- Ddadansoddi costau a dynnwyd a'r costau disgwyledig dros amser, yn seiliedig ar wybodaeth ariannol anarchwiledig a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru a'r Ymddiriedolaeth. Gwnaethom ailseilio amcangyfrifon cost hanesyddol, megis o'r Achos Busnes Amlinellol, er mwyn adlewyrchu'r prisiau ar 31 Mawrth 2024 at ddibenion cymharu.⁴³
- Ail-greu'r Cymharydd Sector Cyhoeddus o dan ragdybiaethau gwahanol.

Gwnaethom adolygu gwybodaeth ariannol anarchwiledig a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru a'r Ymddiriedolaeth.

⁴³ Rydym wedi seilio ein cyfrifiadau termau real ar ddatchwyddydd cynnyrch domestig gros Trysorlys EF. Gwnaethom ddefnyddio'r dadchwyddwyr a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2025 i adlewyrchu prisiau ar 31 Mawrth 2024 er mwyn caniatáu cymhariaeth deg â chontract terfynol Canolfan Ganser newydd Felindre yr ymrwymodd yr Ymddiriedolaeth iddo ar 28 Mawrth 2024. Gellir ystyried y datchwyddydd cynnyrch domestig gros fel mesur o'r chwyddiant cyffredinol yn yr economi ddomestig a gallai fod yn wahanol i chwyddiant prisiau adeiladu. Er enghraifft, gwnaethom nodi yn ein [hadroddiad ar Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru](#) ym mis Mai 2025 fod costau adeiladu seilwaith newydd wedi codi o flaen chwyddiant yn ystod cyfnod 2020-21 i 2023-24 gyda chynnydd sydyn yn 2022-23.

2 Ynglŷn â contract Canolfan Ganser newydd Felindre


Mae'r Atodiad hwn yn amlinellu rhagor o wybodaeth am gontract yr Ymddiriedolaeth gydag ACORN ar gyfer Canolfan Ganser newydd Felindre. Mae'n cynnwys gwybodaeth ynghylch:

- llifau arian sy'n deillio o'r contract;
- y Taliad Gwasanaeth Blynnyddol;
- diogelwch contractiol allweddol; a
- dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer budd cymunedol.

Llifau arian sy'n deillio o'r contract

Mae **Arddangosyn 5** yn crynhoi'r llifau arian contractiol disgwyliedig ac yn dangos sut y mae arian yn cael ei ddychwelyd i Lywodraeth Cymru yn rhan o'i chydfuddsoddiad ag ACORN ym mhrosiect Canolfan Ganser newydd Felindre. Darparodd Llywodraeth Cymru £8.2 miliwn o gyllid cyfalaf ad-daladwy i Fanc Datblygu Cymru er mwyn hwyluso'r buddsoddiad hwn ar ei ran. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl cael ei henillion drwy:

- ad-dalu cytundeb benthyciad rhwng ACORN a Banc Datblygu Cymru; a
- chyfran o 15% o unrhyw elw a gynhyrchir gan ACORN sy'n gweithredu fel cyfranddaliwr ecwiti.



Y Taliad Gwasanaeth Blynyddol i ACORN

Trosolwg

Mae'r model ariannol terfynol y cytunwyd arno wrth gwblhau'r agweddau ariannol yn cynhyrchu'r Taliad Gwasanaeth Blynyddol. Ar yr adeg pan gwblhawyd yr agweddau ariannol, cyfrifwyd bod y Taliad Gwasanaeth Blynyddol yn £33.6 miliwn.

Mae'r Taliad Gwasanaeth Blynyddol yn cynnwys yr elfennau canlynol:

- Ad-dalu'r pecyn cyllido a roddodd ACORN ar waith i gyllido ei gostau ymlaen llaw:
 - Ad-daliadau llog a phrif ad-daliadau ar gyllid dyled; ac
 - Enillion cyfranddalwyr ar ecwiti.
- Costau cynnal a chadw ar gyfer Canolfan Ganser newydd Felindre.
- Costau rhedeg y cwmni a sefydlwyd gan ACORN er mwyn rheoli'r prosiect.

Bydd yr Ymddiriedolaeth yn talu'r Taliad Gwasanaeth Blynyddol drwy daliad gwasanaeth misol sy'n dod yn daladwy yn raddol wrth i'r camau adeiladu gael eu cwblhau.

Mynegeio'r Taliad Gwasanaeth Blynyddol

Bydd cyfran o'r Taliad Gwasanaeth Blynyddol yn chwyddo bob blwyddyn yn unol â symudiadau â mynegai prisiau manwerthu pob eitem ac eithrio llog morgeisi.

Ar yr adeg pan gwblhawyd yr agweddau ariannol, 10.15% yw cyfran y Taliadau Gwasanaeth Blynyddol sy'n destun mynegeio. Mae'r gyfran hon yn adlewyrchu'r costau sylfaenol y disgwylir iddynt gynyddu gyda chwyddiant, sef costau gweithredu a chostau cylch bywyd.

Dros 25 mlynedd, cyfanswm cost y Taliadau Gwasanaeth Blynyddol a ragwelir yw £885 miliwn, sy'n rhagdybio chwyddiant o 2.5% y flwyddyn. Disgwylir y bydd y Taliadau Gwasanaeth Blynyddol blwyddyn llawn olaf – yn 2052 – oddeutu £37.0 miliwn.

Didyniadau ac addasiadau o'r Taliadau Gwasanaeth Blynyddol

Gall yr Ymddiriedolaeth wneud didyniadau o'r taliadau gwasanaeth misol o dan yr amgylchiadau canlynol:

- Nid yw ACORN yn bodloni'r perfformiad gofynnol, megis y safonau gwasanaeth gofynnol.
- Nid yw ardaloedd o'r ganolfan ganser ar gael.
- Mae ACORN yn methu â bodloni dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer budd cymunedol.
- Mae ACORN yn methu â chyflawni targedau ynni ac allyriadau.

Efallai y bydd angen addasiadau i'r Taliadau Gwasanaeth Blynyddol, er enghraifft os yw'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu gwaith ailwampio mawr neu'n ehangu.

Costau y tu allan i'r Taliadau Gwasanaeth Blynyddol

Bydd y taliad gwasanaeth misol yn cynnwys costau eraill a drosglwyddir a dynnir gan ACORN ac y mae'r Ymddiriedolaeth wedi talu amdanynt ar sail wirioneddol. Cyfleustodau, yswiriant, ac ardrethi, yw'r costau hyn.

Gallai'r Ymddiriedolaeth fod yn atebol hefyd am gostau ychwanegol os bydd risgiau penodol yn codi sy'n cyfrif fel digwyddiadau iawndal o dan y contract. Mae'r amgylchiadau cyfyngedig hyn yn adlewyrchu eitemau risg na all yr Ymddiriedolaeth eu trosglwyddo i ACORN na gwneud hynny am bris gwerth am arian. Er enghraifft, os oes oediadau gyda gwaith galluogi sy'n effeithio ar ACORN.

Diogelwch contractiol allweddol

Mae **Arddangosyn 6** yn crynhoi pum maes diogelu allweddol i'r Ymddiriedolaeth:

- Newidiadau a chymeradwyaethau
- Perfformiad a chynnal a chadw
- Gwybodaeth a thryloywder
- Ariannol a chyfreithiol
- Llywodraethu a goruchwyllo.

Arddangosyn 6: trosolwg o’r meysydd diogelu allweddol yng nghontract Canolfan Ganser newydd Felindre

Perfformiad a chynnal a chadw	
Diogelwch contractiol	Disgrifiad
Rhwystrau a diffygion	Caiff yr Ymddiriedolaeth gywiro diffygion heb eu datrys ac adennill costau oddi wrth ACORN.
Monitro a didyniadau	Bydd yr Ymddiriedolaeth yn monitro’r perfformiad ac mae’n cael cymhwyso didyniadau ar gyfer methiannau.
Toriad parhaus	Caiff yr Ymddiriedolaeth derfynu’r contract os oes toriadau parhaus.
Hawliau yr awdurdod i gamu i mewn	Caiff yr Ymddiriedolaeth gamu i mewn a chyflawni rhwymedigaethau ACORN mewn rhai amgylchiadau, megis pan fo toriadau perthnasol i’r gwasanaeth neu risgiau iechyd a diogelwch.

Newidiadau a chymeradwyaethau	
Diogelwch contractiol	Disgrifiad
Newid protocol	Caiff yr Ymddiriedolaeth ofyn am newidiadau a gwneud newidiadau o dan y protocol. Bydd ACORN yn ymateb i hyn gyda chost ac amser ar gyfer gweithredu’r newid. Nid oes rhwymedigaeth ar yr Ymddiriedolaeth i barhau â’r newid.
Newid rheolaeth	Mae angen cymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw ar yr Ymddiriedolaeth ar gyfer unrhyw newid yn rheolaeth ACORN a’i gwmni daliannol.
Newid o ran cyllid	Rhaid i’r Ymddiriedolaeth ddarparu cydsyniad ysgrifenedig cyn i ACORN wneud unrhyw ailgyllido ac mae ganddi hawl i gyfran o unrhyw enillion sy’n deillio o ganlyniad i ailgyllido.

Gwybodaeth a thryloywder

Diogelwch contractiol	Disgrifiad
Darpariaethau cofnodion	Mae hyn yn amlinellu'r gofynion i ACORN greu, cynnal, cadw, a mynd at gofnodion.
Mynediad at wybodaeth	Mae gan yr Ymddiriedolaeth hawliau i gael mynediad at ddogfennau ac esboniadau dros archwiliadau a chydymffurfiaeth reoleiddiol.

Ariannol a chyfreithiol

Diogelwch contractiol	Disgrifiad
Didyniadau mewn cysylltiad ag argaeledd	Caiff yr Ymddiriedolaeth gymhwyso didyniadau o'r Taliadau Gwasanaeth Blynyddol pan nad yw ardaloedd penodol o'r cyfleuster ar gael i'w defnyddio.
Hawliau terfynu	Caiff yr Ymddiriedolaeth derfynu'r contract oherwydd ddiffygion amrywiol, gan gynnwys ansolfedd, toriadau iechyd a diogelwch, a llygredd.
Indemniadau	Mae ACORN yn indemnio'r Ymddiriedolaeth yn erbyn colledion o ganlyniad i anaf personol, difrod i eiddo, a hawliadau trydydd parti.
Gofynion yswiriant	Rhaid i ACORN gynnal yswiriant digonol.
Digwyddiadau iawndal	Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ei diogelu rhag talu iawndal i ACORN oni bai bod amodau penodol yn cael eu bodloni. Yn nodweddiadol, bydd digwyddiadau iawndal yn digwydd pan nad yw'r Ymddiriedolaeth wedi cyflawni ei chyfrifoldebau.
Hawliau i gamu i mewn	Rhoddir hawliau i'r cyllidwyr ymyrryd os bydd ACORN yn diffygio, cyn i'r Ymddiriedolaeth allu derfynu'r contract. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r cyllidwyr achub neu ailstrwythuro'r prosiect cyn iddo gwympo.

Llywodraethu a goruchwyllo

Diogelwch contractiol		Disgrifiad
Cyswllt ac adrodd		Mae gweithdrefnau cyswllt rheolaidd drwy bwyllgor cyswllt ac adolygiadau bob dwy flynedd yn sicrhau goruchwyliaeth barhaus.
Contract Profwr	Annibynnol	Mae'r Profwr Annibynnol, a contractiwyd gan yr Ymddiriedolaeth, yn gweithredu fel trydydd parti niwtral er mwyn asesu cydymffurfiaeth â safonau adeiladu a chyflawni.

Ffynhonnell: crynodeb Archwilio Cymru yn seiliedig ar gontract Canolfan Ganser newydd Felindre

Dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer budd cymunedol

Mae **Arddangosyn 7** yn nodi'r dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer budd cymunedol yng nghontract Canolfan Ganser newydd Felindre. Mae'r rhain yn cyd-fynd ag amrywiaeth o ddangosyddion perfformiad eraill, er enghraifft ynghylch defnyddio ynni. Mae'r diffiniadau canlynol yn berthnasol i'r dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer budd cymunedol:

- Wythnosau person: cyflogi person am bum diwrnod (neu 40 awr) mewn cysylltiad â'r prosiect.
- Pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant: unigolion nad ydynt wedi bod mewn cyflogaeth â thâl rheolaidd ac sydd wedi bod allan o addysg neu hyfforddiant amser llawn am y chwe mis blaenorol yn olynol neu fwy.
- Gweithiwr difreintiedig: rhywun sy'n bodloni o leiaf un o sawl maen prawf. Mae enghreifftiau o'r meini prawf hyn yn cynnwys bod rhwng 15 a 24 oed neu'n oedolyn sengl gydag un neu fwy o ddibynyddion.
- Rhyngweithio â disgybl: rhyngweithio ag un disgybl ysgol am o leiaf awr mewn amgylchedd grŵp strwythuredig ar gyfer gwers, cynulliad, neu weithgaredd addysgol tebyg. Er enghraifft, mae gwers un awr ar gyfer 30 o ddisgyblion yn cyfateb i 30 o rhyngweithiadau â disgybl.
- Ymgysylltu ag ysgolion – STEM: gyrfa gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg, a Mathemateg mewn cysylltiad ag ymgysylltu â disgyblion ysgol. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i bresenoldeb mewn ffeiriau gyrfaedd neu gyfweiliadau a gyflwynir yn y cnawd neu ar sail rithwir, ond nid yw'n cynnwys rhyngweithiadau â disgyblion sy'n cael eu cyfrif ar wahân.
- Ymgysylltu â'r gymuned: unrhyw gyfathrebu neu rhyngweithio rhwng ACORN â'r gymuned gan gynnwys – ond heb fod yn gyfyngedig i – cylchrediad cylchlythyrau, cyflwyniadau, neu gyfarfodydd â grwpiau cymunedol.
- Mentrau cymunedol: menter sy'n gadael etifeddiaeth barhaol yn y gymuned, gan gynnwys – ond heb fod yn gyfyngedig i – adfywio, y Gymraeg a diwylliant Cymru, a chydlyniant cymunedol.

Arddangosyn 7: dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer budd cymunedol ar gyfer contract Canolfan Ganser newydd Felindre

Ardal darged	Cam adeiladu	Tymor gweithredol
Swyddi a grëwyd (pobl nad oeddent mewn addysg, cyflogaeth, na hyfforddiant yn flaenorol neu weithiwr difreintiedig)	12,923 wythnos person	97 wythnos person y flwyddyn
Prentisiaid	6,213 wythnos person	47 wythnos person y flwyddyn
Rhyngweithiadau â disgyblion	7,455 awr	30 awr y flwyddyn
Ymgysylltu ag ysgolion – STEM	2,485 awr	19 awr y flwyddyn
Mentrau cymunedol	20	4 y flwyddyn
Ymgysylltu â'r gymuned	12	Ddim yn angenrheidiol

Ffynhonnell: crynodeb Archwilio Cymru yn seiliedig ar gontract Canolfan Ganser newydd Felindre

Noder: Ar gyfer dangosydd perfformiad allweddol y swyddi a grëwyd, dim ond hyd at 3,231 wythnos person yn ystod y cam adeiladu a 24 wythnos person y flwyddyn yn ystod y cam gweithredu a gaiff ddod o weithwyr difreintiedig nad ydynt yn cael eu cyfrif fel arall fel pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

3 Amcangyfrifon cost ar gyfer Canolfan Ganser newydd Felindre ar wahanol adegau

Mae **Arddangosyn 8** yn nodi'r costau adeiladu amcangyfrifedig neu y cytunwyd arnynt ar gyfer Canolfan Ganser newydd Felindre, a phan eu bod yn berthnasol y Taliadau Gwasanaeth Blynnyddol dangosol neu y cytunwyd arnynt, ar adegau penodol. O dan contract Canolfan Ganser newydd Felindre, mae'r Ymddiriedolaeth yn talu am gostau adeiladu yn rhan o'r Taliadau Gwasanaeth Blynnyddol.

Arddangosyn 8: amcangyfrif o'r costau adeiladu a'r Taliadau Gwasanaeth Blynnyddol dangosol ar gyfer Canolfan Ganser newydd Felindre ar adegau arwyddocaol ers 2010 (£ miliynau)^{1, 2}

	Hydref 2010 Y cynnig gwreiddiol ar gyfer Canolfan Ganser newydd Felindre	Rhagfyr 2014 Cynigion cychwynnol rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser	Mawrth 2021 Achos Busnes Amlinellol ar gyfer Canolfan Ganser newydd Felindre	Medi 2021 Diwedd y broses gyn-gymhwyso er mwyn caffael Canolfan Ganser newydd Felindre	Mehefin 2022 Diwedd y broses o gaffael Canolfan Ganser newydd Felindre	Mawrth 2024 Cwblhau'r agweddau ariannol ar gyfer Canolfan Ganser newydd Felindre
Cost adeiladu	240.0	210.0	180.0	200.0	280.0	321.0
Cost adeiladu addasedig [Prisiau 2023/24]	327.4	276.0	204.0	226.7	296.5	321.0
Taliadau Gwasanaeth Blynnyddol dangosol	-	-	16.9	22.5	25.7	33.6

	Hydref 2010 Y cynnig gwreiddiol ar gyfer Canolfan Ganser newydd Felindre	Rhagfyr 2014 Cynigion cychwynnol rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser	Mawrth 2021 Achos Busnes Amlinellol ar gyfer Canolfan Ganser newydd Felindre	Medi 2021 Diwedd y broses gyn-gymhwysu er mwyn caffael Canolfan Ganser newydd Felindre	Mehefin 2022 Diwedd y broses o gaffael Canolfan Ganser newydd Felindre	Mawrth 2024 Cwblhau'r agweddau ariannol ar gyfer Canolfan Ganser newydd Felindre
Taliadau Gwasanaeth Blynyddol dangosol addasedig [Prisiau 2023/24]			19.2	25.5	27.2	33.6

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddogfennau yr Ymddiriedolaeth

Nodiadau:

¹ Ar y pwyntiau a ddangosir cyn yr Achos Busnes Amlinellol, nid oedd Llywodraeth Cymru wedi lansio'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol, felly nid oedd unrhyw amcangyfrifon ar gyfer y model cyllido hwnnw. Hefyd, mae'r gost adeiladu a osodwyd ar gyfer amcangyfrif mis Rhagfyr 2014 yn cynnwys gwaith galluogi, megis ffyrdd a phontydd i ddarparu mynediad i'r safle; nid ydym wedi gallu gwahaniaethu rhwng hyn a'r amcangyfrif cyffredinol. Rydym wedi addasu amcangyfrifon cost hanesyddol ar gyfer chwyddiant gan ddefnyddio datchwyddydd cynnyrch domestig gros Trysorlys EF i gymhwyso sylfaen prisiau cyffredin (gweler hefyd **Atodiad 1**).

² Y gost o ddylunio ac adeiladu Canolfan Ganser newydd Felindre yw'r costau adeiladu ac nid ydynt yn cynnwys offer cyfalaf, costau cyflawni prosiectau, na chostau wrth gefn.

4 Partïon sector cyhoeddus sy’n ymddangos yn yr adroddiad hwn a thermau allweddol eraill

Mae **Arddangosyn 9** yn nodi swyddogaeth y partïon sector cyhoeddus allweddol a chwaraeodd ran yn y broses o wneud penderfyniadau mewn cysylltiad â Chanolfan Ganser newydd Felindre y sonnir amdanynt yn yr adroddiad hwn. Ochr yn ochr â’u cyfranogiad, cafwyd amrywiaeth o gyngor proffesiynol arbenigol arall gan y sector preifat. Mae **Arddangosyn 10** yn rhestru thermau allweddol a ddefnyddir ar draws sawl adran o’r adroddiad hwn. Pan ddefnyddir thermau technegol eraill mewn rhannau ynysig o’r adroddiad yn unig, fe’u heglurir ar y pwynt hwnnw.

Arddangosyn 9: y partïon sector cyhoeddus allweddol a chwaraeodd ran yn y broses o wneud penderfyniadau mewn cysylltiad â Chanolfan Ganser newydd Felindre

Parti	Cyfrifoldebau
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro	Perchennog gwreiddiol Ysbyty’r Eglwys Newydd a safle Canolfan Ganser newydd Felindre a throsglwyddiadau tir y cytunwyd arnynt i’r Ymddiriedolaeth.
Cyngor Caerdydd	Yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer safle Canolfan Ganser newydd Felindre ac mae’n gyfrifol am reoleiddio datblygiad ac am benderfynu ar geisiadau cynllunio.
Byrddau Iechyd sy’n comisiynu	Asesu a chytuno ar y setliad fforddiadwyedd ariannol mewn cysylltiad â’r costau refeniw ychwanegol heblaw’r Model Buddsoddi Cydfuddiannol sy’n gysylltiedig â gweithredu Canolfan Ganser newydd Felindre.
Banc Datblygu Cymru	Buddsoddi yn y contract Model Buddsoddi Cydfuddiannol ar ran Llywodraeth Cymru ac ymgymryd â diwydrwydd dyladwy ar rai agweddau cyfreithiol, ariannol, a thechnegol ar y prosiect yn rhan o’i swyddogaeth buddsoddwr. Mae wedi penodi cyfarwyddwr anweithredol i fwrdd ACORN er mwyn rheoli’r gyfranddaliadaeth gyhoeddus.

Parti	Cyfrifoldebau
Cyfoeth Naturiol Cymru	Rhoi Trwyddedau Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop i'r Ymddiriedolaeth.
Grŵp Arweinyddiaeth Canser Cydweithredol de-ddwyrain Cymru y GIG / Bwrdd y Rhaglen Canser Rhanbarthol bellach	Mae'n canolbwyntio ar wella cydweithrediad ac arweinyddiaeth gofal cancer yn y rhanbarth drwy ddylunio, datblygu, a blaenoriaethu'r rhaglen ganser yn y dyfodol, gan gynnwys trefniadau Canolfan Ganser newydd Felindre.
Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru – Archwilio Mewnol	Darparu sicrwydd annibynnol i'r Ymddiriedolaeth ar draws amrywiaeth o feysydd risg ac ar wahanol gamau, gan gynnwys o amgylch prosesau caffael a llywodraethu.
Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru – Gwasanaethau Ystadau Arbenigol	Darparu cyngor a chefnogaeth i Lywodraeth Cymru a'r Ymddiriedolaeth. Roedd hyn yn cynnwys cyngor ar offer ac adolygiadau technegol yn ystod y cam dylunio.
Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre / yr Ymddiriedolaeth	Yr awdurdod sy'n contractio ar gyfer Canolfan Ganser newydd Felindre. Darparu gwasanaethau cancer a rheoli prosiect Canolfan Ganser newydd Felindre, gan gynnwys rheoli contractau parhaus gydag ACORN. Ar lefel weithredol, mae Bwrdd Prosiect yn rheoli Canolfan Ganser newydd Felindre a ffrydiau gwaith eraill rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser. Mae'r Bwrdd Prosiect yn adrodd i is-bwyllgor craffu fel y gall graffu arno a'i herio. Mae'r Bwrdd Prosiect yn uwchgyfeirio penderfyniadau y mae angen eu gwneud sydd y tu hwnt i'w awdurdod dirprwyedig at Fwrdd yr Ymddiriedolaeth.

Parti	Cyfrifoldebau
Prif Economegydd Llywodraeth Cymru	Craffodd ar Achos Busnes Llawn yr Ymddiriedolaeth a'i herio, a adlewyrchwyd mewn cyngor i Weinidogion.
Bwrdd Strategol Iechyd Llywodraeth Cymru	Mae'n gwneud argymhellion i Weinidogion ynghylch gwneud penderfyniadau strategol. Herio'r broses o wneud penderfyniadau a chraffu arni, drwy gydol y broses.
Bwrdd Buddsoddi mewn Seilwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	Mae'n gwneud argymhellion i Weinidogion ar gyfer prosiectau sydd â gofynion cyllido cyfalaf a sicrhau bod prosiectau yn cydymffurfio â'r model pum achos.
Gwasanaethau Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru	Maent yn darparu sicrwydd annibynnol i Lywodraeth Cymru ar draws amrywiaeth o feysydd risg ac ar wahanol gamau, gan gynnwys o amgylch y Model Buddsoddi Cydfuddiannol. Maent hefyd yn darparu adroddiadau cynghori.
Swyddfa Rhaglen Model Buddsoddi Cydfuddiannol Llywodraeth Cymru	Sicrhau bod cynlluniau Model Buddsoddi Cydfuddiannol yn cydymffurfio â dosbarthiadau y Swyddfa Ystadegau Gwladol a chytuno ar unrhyw randdirymiadau o bolisi safonol y Model Buddsoddi Cydfuddiannol.
Gweinidogion Cymru	Y rhai sy'n gwneud penderfyniadau terfynol, gan ddarparu cymeradwyaeth i'r Ymddiriedolaeth ymrwymo i'r contract Model Buddsoddi Cydfuddiannol a chytuno ar ddyraniadau cyllideb.

Arddangosyn 10: termau allweddol a ddefnyddir ar draws sawl adran o'r adroddiad hwn

Term	Disgrifiad
Consortiwm ACORN / ACORN	Contractwr Canolfan Ganser newydd Felindre y Model Buddsoddi Cydfuddiannol sy'n masnachu o dan gwmni cyfryngau dibenion arbennig <u>Acorn Velindre Limited</u> . Mae'r consortiwm o gwmnïau yn dwyn ynghyd Kajima Partnerships Limited, Sacyr Infrastructure UK Ltd, Aberdeen European Infrastructure GP IV Limited, Sacyr UK Limited, Kier Facilities Ltd, Hydrock Consultants Limited, BAC Engineering Consultancy Group SL, Ingho Facility Management SL, a White Arkitekter AB. Mae Banc Datblygu Cymru hefyd wedi penodi cyfarwyddwr i fwrdd ACORN yn rhan o'i gyfran ecwiti.
Cyngor i Weinidogion / Cyngor Gweinidogol	Y cyngor ysgrifenedig y mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn ei gyflwyno i Weinidogion i'w galluogi i wneud penderfyniad cyfreithlon.
Taliad Gwasanaeth Blynnyddol	Y taliad blynnyddol y bydd yr Ymddiriedolaeth yn ei dalu i ACORN am Ganolfan Ganser newydd Felindre. Mae'r model ariannol terfynol y cytunwyd arno wrth gwblhau'r agweddau ariannol yn cynhyrchu'r Taliad Gwasanaeth Blynnyddol. Gweler hefyd Atodiad 2 .
Achos Masnachol	Rhan o'r model pum achos. Mae'n dangos y bydd y dewis a ffefrir yn arwain at gaffaeliad ymarferol a chytundeb strwythuredig rhwng y sector cyhoeddus a'i ddarparwyr gwasanaeth.
Buddion cymunedol	Fe'u gelwir hefyd yn gymalau gwerth cymdeithasol. Amodau contract yng ngweithgareddau caffael y sector cyhoeddus yw'r rhain er mwyn cyflawni canlyniadau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol, a diwylliannol cadarnhaol.

Term	Disgrifiad
Cyfradd ddisgownt	Cyfradd ganrannol a gymhwysir i werth neu gost yn y dyfodol er mwyn adlewyrchu gwerth presennol arian. Mae canllawiau Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF yn gosod y gyfradd ddisgownt.
Achos Economaidd	Rhan o'r model pum achos. Mae'n nodi'r cynnig sy'n cyflawni'r gwerth cyhoeddus gorau i'r gymdeithas, gan gynnwys ystyried effeithiau cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach.
Gwaith galluogi	Yr ystod o waith seilwaith gan gynnwys ffyrdd, pontydd a gwaith mynediad er mwyn galluogi safle lle mae'r rhawiau'n barod i adeiladu Canolfan Ganser newydd Felindre.
Achos Ariannol	Rhan o'r model pum achos. Mae'n dangos fforddiadwyedd a chyllid y dewis a ffefrir, gan gynnwys cefnogi rhanddeiliaid a chwsmeriaid, yn ôl yr angen.
Cwblhau'r Agweddau Ariannol	Y broses a'r pwynt pan oedd yr holl gytundebau ariannol, adeiladu a gwasanaeth ar waith fel y gallai prosiect Canolfan Ganser newydd Felindre fynd rhagddo. Fe'u ffurfiolwyd wrth i'r Ymddiriedolaeth ymrwymo i gontract Canolfan Ganser newydd Felindre gydag ACORN.
Model ariannol	Y model taenlen cyfrifiadurol ar gyfer prosiect Canolfan Ganser newydd Felindre sy'n ymgorffori datganiadau o lifau arian ACORN, gan gynnwys gwariant, refeniw, cyllid, a threthiant drwy gydol tymor y prosiect.
Y model pum achos	Fframwaith ar gyfer datblygu a chyflwyno achos busnes, sy'n cynnwys yr achosion strategol, economaidd, masnachol, ariannol a rheoli.
Achos Busnes Llawn	Mae'n nodi'r dewis mwyaf buddiol o safbwynt economaidd yn sgil caffaeliad, cadarnhau fforddiadwyedd, a rhoi'r trefniadau manwl ar waith er mwyn cyflawni'n llwyddiannus.

Term	Disgrifiad
Achos Rheoli	Rhan o'r model pum achos. Mae'n dangos bod trefniadau cadarn ar waith i gyflawni, monitro, a gwerthuso'r cynllun, gan gynnwys sylwadau ar gylch cynllunio strategol y sefydliad.
Model Buddsoddi Cydfuddiannol	Menter Llywodraeth Cymru lle mae partneriaid sector preifat yn adeiladu ac yn cynnal asedau cyhoeddus. Pan fyddant yn weithredol, bydd y corff cyhoeddus perthnasol yn talu ffi reolaidd i'r partner preifat o'i gyllideb refeniw. Bydd y ffi yn cwmpasu cost adeiladu, cynnal a chadw, a chyllido y prosiect.
Canolfan Ganser Newydd Felindre	Y cyfleuster newydd yn yr Eglwys Newydd, Caerdydd, a fydd yn disodli'r ganolfan bresennol gerllaw.
Achos Busnes Amlinellol	Nodi'r dewis sy'n cynnig y gwerth cyhoeddus gorau, canfod y dull caffael a'r gofynion cyllido, a rhoi'r trefniadau ar gyfer cyflawni'n llwyddiannus ar waith cyn mynd â chaffaeliad i'r farchnad.
Cyllid preifat	Dull cyllido gan y llywodraeth sy'n defnyddio cronfeydd sector preifat i gyllido prosiectau y sector cyhoeddus. Mae enghreifftiau o gyllid preifat yn cynnwys y Model Buddsoddi Cydfuddiannol a'r Fenter Cyllid Preifat.
Cymharydd Sector Cyhoeddus	Ffordd o gymharu cost cyllido prosiect yn uniongyrchol gan y sector cyhoeddus â'r gost o wneud hynny drwy gyllid preifat, megis y Model Buddsoddi Cydfuddiannol. Mae'n tybio'r un lefel o wasanaeth a chynnal a chadw ac mae'n cynnwys addasiadau ar gyfer risg a threth er mwyn gwneud y gymhariaeth yn deg, ond dylanwedir arno gan ragdybiaethau eraill hefyd.

Term	Disgrifiad
Achos Strategol	Rhan o'r model pum achos. Mae'n gwneud yr achos dros newid ac yn dangos sut y mae'n cyweddau strategaethau.
Egwyddor datblygu cynaliadwy	Fe'i hamlinellir yn <u>Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015</u> . Mae'n golygu gweithredu mewn modd sy'n sicrhau y diwellir anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau y dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. I weithredu yn y modd hwnnw, mae'n rhaid i gorff cyhoeddus ystyried pum ffordd o weithio y cyfeirir atynt yn gyffredin fel hirdymor, integreiddio, cynnwys, cydweithio, ac atal.
Contract Canolfan Ganser newydd Felindre	Cytundeb prosiect cyfreithiol rhwng yr Ymddiriedolaeth ac ACORN ar gyfer dylunio, adeiladu, cynnal a chadw, a chyllido canolfan ganser newydd Felindre.
Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser	Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser yn ne-ddwyrain Cymru yr Ymddiriedolaeth, sy'n cynnwys saith prosiect: • Gwaith galluogi ar gyfer Canolfan Ganser newydd Felindre. • Adeiladu a chyfarparu Canolfan Ganser newydd Felindre. • Digidol ac offer. • Canolfan loeren radiotherapi yn Ysbyty Neville Hall, y Fenni. • Cyfleusterau allgymorth sy'n darparu gwasanaethau canser a gorfforir mewn byrddau iechyd eraill. • Darparu a thrawsnewid gwasanaethau. • Digomisiynu adeiladau nad oes eu hangen mwyach ar ôl adeiladu Canolfan Ganser newydd Felindre.

Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio ac adrodd ar gyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â chyfrifon cyngorau a chyrff llywodraeth leol eraill. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar y modd y mae'r sefydliadau hyn yn defnyddio adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei waith gyda chymorth staff ac adnoddau eraill gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n gorff a sefydlwyd i gefnogi, cynghori a monitro gwaith yr Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r term ymbarél a ddefnyddir am Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân a chanddynt y rolau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.



Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas

Stryd Tyndall

Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: gwybodaeth@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.